# Adroddiad Adolygu Ymarfer Plant Cryno

# CYSUR 6/2018

**Dyddiad cyflwyno'r adroddiad i'r Bwrdd: 14 Gorffennaf 2020**

# Adroddiad Adolygu Ymarfer Plant

## CYSUR: Bwrdd Diogelu Plant Canolbarth a Gorllewin Cymru

## Ynghylch Adolygiad Ymarfer Plant Cryno:

## CYSUR 6/2018 (Powys)

## Amlinelliad byr o'r amgylchiadau yn arwain at gynnal yr adolygiad

**Cyd-destun cyfreithiol**

Comisiynwyd Adolygiad Ymarfer Plant Cryno gan CYSUR: Bwrdd Diogelu Plant Canolbarth a Gorllewin Cymru yn unol â deddfwriaeth statudol fel y nodir yn adran 139 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014[1] a chanllaw cysylltiedig *Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl – Cyfres 2 – Adolygiadau Ymarfer Plant*[2] (Llywodraeth Cymru, 2016).

Bodlonir y meini prawf ar gyfer yr adolygiad hwn o dan Bennod 6, *Adolygiadau Ymarfer Plant Cryno*:

Rhaid i Fwrdd gynnal Adolygiad Ymarfer Plant Cryno yn unrhyw un o'r achosion canlynol yn ardal y Bwrdd lle gwyddys neu lle amheuir bod achos o gam-drin neu esgeuluso plentyn wedi digwydd a lle mae'r plentyn:

- Wedi marw; neu
- Wedi cael anaf parhaus a allai beryglu bywyd; neu
- Wedi dioddef nam difrifol a pharhaus i'w iechyd neu i ddatblygiad; **ac**

nid oedd y plentyn ar y gofrestr amddiffyn plant nac yn blentyn sy'n derbyn gofal ar unrhyw ddyddiad yn ystod y chwe mis cyn –

- Dyddiad y digwyddiad y cyfeirir ato uchod; neu
- Y dyddiad y mae awdurdod lleol (ALl) neu bartner perthnasol[3] yn nodi bod plentyn wedi dioddef nam difrifol a pharhaus i iechyd a datblygiad.

Mae'r meini prawf ar gyfer adolygiadau cryno wedi'u nodi yn Rheoliadau Byrddau Diogelu (Swyddogaethau a Gweithdrefnau) (Cymru) 2015.[4]

Pwrpas yr adolygiad yw nodi dysgu ar gyfer ymarfer yn y dyfodol. Mae'n cynnwys ymarferwyr, rheolwyr ac uwch-swyddogion wrth archwilio manylion a chyd-destun gwaith asiantaethau gyda phlentyn a theulu. Bwriad allbwn yr adolygiad yw cynhyrchu dysgu proffesiynol a sefydliadol a hyrwyddo gwelliant mewn arferion rhyngasiantaethol ac amddiffyn plant yn y dyfodol. Dylai gynnwys yr amgylchiadau a arweiniodd at yr adolygiad, gan gynnwys amlygu arfer effeithiol ac ystyriaethau ynghylch yr hyn sydd angen ei wneud yn wahanol i wella arfer yn y dyfodol (*Gweithio*

[1] Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014
[2] Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl – Cyfrol 2 – Adolygiadau Ymarfer Plant (Llywodraeth Cymru, 2016)
[3] Ystyr awdurdod lleol neu bartner perthnasol yw unigolyn neu gorff y cyfeirir ato yn adran 28 o *Ddeddf Plant 2004* neu gorff a grybwyllir yn adran 175 o Ddeddf Addysg 2002.
[4] Rheoliadau Byrddau Diogelu (Swyddogaethau a Gweithdrefnau) (Cymru) 2015
5. Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl – Cyfrol 2 – Adolygiadau Ymarfer Plant (Llywodraeth Cymru, 2016)

*Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl – Cyfrol 2 – Adolygiadau Ymarfer Plant* (Llywodraeth Cymru, 2016).[5]

Ceir y cylch gorchwyl ar gyfer yr Adolygiad Ymarfer Plant Cryno hwn yn **Atodiad 1.**

### Yr amgylchiadau yn arwain at gynnal yr adolygiad

Mae Teulu Y yn cynnwys Mr a Mrs Y a'u saith o blant: AY, BY, CY, DY, EY, FY, a GY. Ar adeg y digwyddiad tyngedfennol yn 2017, roedd y plant rhwng 1 ac 14 oed. Ar 8 Rhagfyr 2017, derbyniodd yr heddlu alwad gan Mrs Y yn nodi bod Mr Y wedi bygwth saethu eu merch CY, a oedd yn naw oed. Dywedodd yr atgyfeiriad fod Mr Y wedi bod yn yfed a chredai fod CY wedi rhoi eira yn ei esgidiau, a dyna oedd wedi sbarduno'r digwyddiad. Rhyddhaodd Mr Y y reiffl aer deirgwaith yn ystafell wely CY, tra oedd CY yn bresennol, a bwgwth ei lladd. Roedd yr holl blant yn bresennol yn y cartref ac yn ymwybodol o'r hyn oedd yn digwydd, er ei bod yn debygol y byddai rhai o'r plant iau wedi bod yn rhy ifanc i wybod union natur y digwyddiadau oedd yn digwydd.

Arestiwyd Mr Y wedyn a bryd hynny gwnaeth y plant hŷn ddatgeliadau pellach eu bod nhw wedi cael eu taro gan lwy bren gan Mr Y pan oedd yn credu bod angen eu cosbi nhw. Datgelodd y plentyn hynaf, AY, hefyd ei bod hi yn hunan-niweidio ac roedd tystiolaeth o doriadau ar ei breichiau a'i choesau.

Plediodd Mr Y yn euog i ddau gyhuddiad o ymosod, un o fygythiad i ladd, a meddu ar ddryll gyda'r bwriad o achosi ofn neu drais. Cafodd ei ddedfrydu ym mis Chwefror 2018 i dair blynedd o garchar. Gosodwyd gorchymyn atal deng mlynedd i amddiffyn Mrs Y a'r plant. I ddechrau, roedd y plant yn parhau i fyw gartref gyda'u mam ond, oherwydd pryderon parhaus ynghylch diogelwch a llesiant y plant, cychwynnwyd achos gofal, a tynnwyd y plant i ofal yr awdurdod lleol ym mis Mawrth 2018.

### Y cyfnod amser a adolygwyd a'r rheswm dros hynny

Mewn Adolygiad Ymarfer Plant Cryno, mae'r dysgu'n canolbwyntio ar gyfnod o flwyddyn. Dewisodd y panel adolygu'r cyfnod rhwng 9 Rhagfyr 2016 a Rhagfyr 2017 er mwyn dal y digwyddiadau a arweiniodd at y digwyddiad tyngedfennol ym mis Rhagfyr 2017. Fodd bynnag, er mwyn deall y cyd-destun angenrheidiol, mae'r cadeirydd a'r adolygydd annibynnol wedi ystyried gwybodaeth gyd-destunol hanesyddol berthnasol sy'n dyddio yn ôl i 2008 ac yn benodol i ddigwyddiadau 2011. Cafodd yr wybodaeth gyd-destunol ei ystyried hefyd gan yr asiantaethau a fynychodd y digwyddiad dysgu.

### Y plant

Mae'r adolygydd annibynnol, cadeirydd y panel ac aelodau'r panel am gydnabod cyfraniadau'r ddau blentyn a gytunodd i gymryd rhan yn y broses adolygu hon. Mae'n rhaid bod hyn wedi bod yn broses hynod heriol a phoenus. Hoffem ddiolch iddynt am eu dewrder a chynnig iddynt ein gobaith y byddant yn dod o hyd i ganlyniadau iachusol a chadarnhaol yn y dyfodol.

**Hanes teuluol y plant a gwybodaeth gyd-destunol**

Cyfarfu Mr a Mrs Y, sydd ill dau yn drigolion y DU, yn Ewrop yn wreiddiol, lle'r oedd y ddau yn byw bryd hynny. Roedd Mr Y wedi bod yn briod ddwywaith o’r blaen ac mae ganddo ddau o blant sydd wedi tyfu i fyny o’i briodas gyntaf, ond nid yw’n cael unrhyw gysylltiad â’i wragedd na’i blant blaenorol. Rhannodd Mrs Y mai eu diddordeb mewn Cristnogaeth a chredoau efengylaidd oedd wedi dod â nhw at ei gilydd. Roedd y ddau yn ddilynwyr brwd o ddysgeidiaeth y ffydd BC (cyfeiriad dienw) ar adeg y digwyddiad tyngedfennol, a dylanwadodd hyn yn gryf ar sut y gwnaethant ddewis byw. Roedd Mrs Y yn byw gyda rhieni Mr Y yn eu cartref yn Ewrop nes i’r berthynas gyda mam Mr Y chwalu a gofynnwyd iddi adael. Roedd Mrs Y eisoes mewn perthynas â Mr Y erbyn hyn ac fe benderfynon nhw adael gyda'i gilydd.

Dychwelodd Mr a Mrs Y i'r DU a symud i Gymru, lle priodon nhw yn 2003. Yn ôl cofnodion meddygol ac o fewnbwn Mrs Y, cafodd cyfanswm o naw o blant eu cenhedlu, ond dioddefodd Mrs Y ddau gamesgoriad. Dywedodd Mrs Y yn ei chyfarfod â’r adolygydd annibynnol iddi gael ei chadw yn feichiog gan ei gŵr am y rhan fwyaf o’u priodas. Teimlai fod hyn yn rhan o ymddygiad rheoli Mr Y ac yn ffordd o’i chadw’n ddibynnol arno. Mae Mrs Y yn disgrifio Mr Y fel un oedd yn ynysu’r teulu ac yn cyfiawnhau hyn oherwydd dysgeidiaeth y Beibl. Dywed Mrs Y ei bod bellach yn sylweddoli mai “dim ond dehongliad Mr Y o’r Beibl oedd hwn”.

Symudodd y teulu sawl gwaith rhwng 2003 a 2017. Yn ystod y cyfnod hwn, arhosodd y teulu yn ynysig iawn a chafodd pob un o’r blant addysg ddewisol yn y cartref. Roedd Mr a Mrs Y wedi ymddieithrio oddi wrth unrhyw aelodau estynedig o deulu tadol a mamol. Roeddent yn byw o dan reolau credoau crefyddol llym Mr a Mrs Y. Mae’r pregethwr y bu iddynt seilio eu credoau a’u harferion arno, Mr AB, wedi ymbellhau oddi wrth y teulu ers hynny ac wedi gofyn i Mr Y a Mrs Y beidio â chysylltu ag ef mwyach. Yn ystod yr achosion troseddol a sifil, awgrymwyd na fyddai AB yn cefnogi triniaeth Mr a Mrs Y o’u plant fel rhai sy’n cyd-fynd â’i ddysgeidiaeth. Ysgrifennodd ar wahân at Mr a Mrs Y i ddweud eu bod wedi methu eu plant.

Ymddengys fod Mr Y wedi datblygu ei ddehongliad ei hun o’r ffydd AB. Gwyddys ei fod yn pregethu ei ddaliadau crefyddol yng nghanol y dref gerllaw lle'r oedd y teulu'n byw. Mae tystiolaeth bod Mr a Mrs Y yn rhannu eu credoau crefyddol â’r gweithwyr proffesiynol y gwnaethant gyfarfod â nhw, a’u bod nhw’n awyddus i’w hannog nhw i drosi at eu ffydd, gan rannu gwybodaeth a thaflenni gyda nhw.

Nododd y llys fel rhan o’r achos gofal nad oedd y sefyllfa argyfyngus ”*yn ddigwyddiad ynysig*” a bod y plant wedi dioddef “*gwahanol fathau o gam-drin corfforol ac emosiynol”.* Ers iddynt gael eu tynnu o ofal Mr a Mrs Y, mae’r plant wedi gallu rhannu llawer mwy o wybodaeth am y cam-drin dyddiol y maent wedi’i ddioddef.

Dywedodd dyfarniad llys yn 2018 fod Mr Y *“yn haeru goruchafiaeth dros y plant”.* Yn ei chyfarfod â’r adolygydd, disgrifiodd Mrs Y ei hun hefyd fel dioddefwr i Mr Y a dywedodd ei bod yn credu ei bod yn ddioddefwr cam-drin domestig. Nid oes unrhyw gofnodion bod

Mrs Y yn ceisio gadael gyda'r plant nac yn rhannu'r pryder hwn ag asiantaethau a roddodd gyfleoedd iddi wneud hynny pan gafodd ei gweld ar ei phen ei hun. Yn ei chyfweliad, esboniodd Mrs Y na allai wneud hyn gan ei bod yn gwbl ddibynnol ar Mr Y ac nid oedd ganddi berthynas 'ymddiriedol' ag unrhyw un o'r asiantaethau iechyd y cyfarfu â hwy. Mae Mrs Y yn honni bod cyfleoedd pan allai asiantaethau fod wedi cael eu rhybuddio am y cam-drin; unwaith pan ffoniodd hi yr heddlu am Mr Y yn ceisio gyrru'r car gyda'r plant ynddo pan oedd yn feddw iawn, ac yn ail pan gafodd y teulu eu troi allan a'r gwasanaethau cymdeithasol yn ymweld â'r teulu. Teimlai ei bod yn hawdd argyhoeddi'r asiantaethau i beidio â dilyn unrhyw lwybrau ymchwilio ac y dylent fod wedi bod yn fwy dyfal o ran ei gweld hi a/neu'r plant ar eu pen eu hunain, a datblygu perthynas â nhw fel y gallent siarad am eu sefyllfa. Roedd Mr a Mrs Y yn cadw'r cysylltiad ag asiantaethau cyn lleied â phosibl iddyn nhw eu hunain ac i'r plant. Dywedodd Mrs Y fod disgwyl iddi ynysu ei hun a'r plant i ddylanwadau "bydol" o'r tu allan.

Yn ystod yr achos gofal, roedd i ba raddau yr oedd y plant wedi cael eu cam-drin yn dod yn fwy amlwg, gyda thystiolaeth o gam-drin corfforol, emosiynol a seicolegol dyddiol a oedd yn gadael effaith trawma difrifol ar y plant. Mae'r asesiad seicolegol yn dangos bod rhai o'r plant yn dioddef o anhwylder straen ôl-drawmatig ac anhwylderau bwyta, eu bod yn hunan-niweidio, a'u bod ag anawsterau ymlyniad a phroblemau ymddygiad. Mae pob un o'r plant ac eithrio un yn derbyn therapi a bydd angen ymyrraeth hirdymor i ddatblygu perthnasoedd ymddiriedus sylfaenol.

Cyn y digwyddiad tyngedfennol yn 2017, roedd dau atgyfeiriad i'r Gwasanaethau Plant. Yn 2008, cysylltodd Mrs Y â'r heddlu oherwydd bod Mr Y yn gyrru gydag AY ac CY pan oedd o dan ddylanwad alcohol. Derbyniodd Mr Y rybuddiad am esgeulustod ac ni chymerwyd unrhyw gamau pellach gan yr heddlu na'r Gwasanaethau Plant. Yr ail achlysur oedd 16 Mai 2011, pan anfonodd yr adran dai atgyfeiriad at y Gwasanaethau Plant, oherwydd pryderon ynghylch defnydd Mr Y o alcohol ac ynysigrwydd y plant, y gwyddys eu bod yn cael addysg ddewisol yn y cartref ac wedi symud tŷ yn aml. Roedd Mr Y wedi pregethu i'r swyddogion tai am ei ddaliadau Cristnogol efengylaidd selog. Er yn holi ynglŷn â'r plant, nid oedd y swyddogion wedi gallu eu gweld.

Cychwynnwyd ymchwiliad adran 47[6] asiantaeth sengl, a gytunodd yn ddiweddarach fod angen asesiad craidd. Cynhaliwyd sawl trafodaeth strategaeth adolygiad hyd at fis Hydref 2011 a chafodd phartneriaid amlasiantaeth priodol eu cynrychioli. Yn y diwedd, caewyd yr achos ym mis Ionawr 2012, heb i'r plant erioed gael eu gweld a heb gael sgwrs â nhw fel rhan o unrhyw asesiadau.

Roedd ymgysylltiad y teulu â'r gwasanaethau yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru yn gyfyngedig, a dim ond yr asiantaethau canlynol a oedd yn gwybod amdanynt:

- Y meddyg teulu

[6] Mae ymchwiliad **adran 47** yn golygu bod yn rhaid i wasanaethau gofal cymdeithasol plant gynnal ymchwiliad pan fo ganddynt achos rhesymol i amau bod plentyn sy'n byw, neu a ganfyddir, yn eu hardal yn dioddef, neu'n debygol o ddioddef, niwed sylweddol.



TERFYNOL

- Gwasanaethau bydwreigiaeth ac obstetreg
- Ymwelwyr iechyd
- Gwasanaethau pediatrig
- Tai
- Addysg (y tîm addysg ddewisol yn y cartref)

**Yr heddlu**

Cyn y digwyddiad tyngedfennol ac yn ystod amser yr adolygiad hwn, nid oedd yr heddlu yn ymwneud â'r teulu. Yn y cyfraniadau i'r adolygiad, ac yn enwedig ar ôl y digwyddiad tyngedfennol pan oedd yr heddlu yn gysylltiedig, maent wedi ystyried eu rôl a'u mewnbwn ac wedi nodi rhai arferion a dysgu cadarnhaol sydd y tu allan i gylch gorchwyl yr adolygiad hwn. Mae angen i'r dysgu hwn gael ei gofnodi'n fewnol gan yr heddlu.

**Addysg**

Dewisodd y rhieni roi addysg ddewisol yn y cartref i'r plant ac, wrth wneud hynny, roeddent yn cydymffurfio â gofynion adran 7 Deddf Addysg 1996.[7]Daeth AY a BY yn hysbys i'r Gwasanaethau Addysg yn 2011. Mae adran 436A o'r Ddeddf ond yn ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod lleol gynnal system sy'n caniatáu iddo, cyn belled ag y bo modd, nodi plant nad ydynt efallai'n cael addysg addas. Nid yw'n ofynnol i rieni hysbysu'r awdurdod lleol eu bod yn darparu addysg ddewisol yn y cartref i'w plant, ac eithrio pan fyddant yn eu tynnu allan o addysg mewn ysgol. Gan nad oedd y plant erioed wedi cofrestru mewn ysgol, nid oedd yn ofynnol i Mr a Mrs Y hysbysu'r awdurdod lleol bod y plant yn cael addysg yn y cartref. Nid oes gofyniad ychwaith i rieni ddangos tystiolaeth bod cwricwlwm priodol yn cael ei gyflwyno.

Serch hynny, mae cofnodion yn dangos bod Mr a Mrs Y yn ddiwyd iawn o ran cyfathrebu â'r Gwasanaeth Ysgolion ac nid oeddent yn peri pryder. Ni nododd y monitro blynyddol o addysg ddewisol yn y cartref unrhyw feysydd o bryder. Nid yw'r ddeddfwriaeth ychwaith yn ei gwneud yn ofynnol i'r plant gael eu gweld yn y cartref nac i rywun siarad â nhw, ac nid oes angen ymweliad â'r cartref i wirio'r amgylchedd dysgu ychwaith. Roedd Mr a Mrs Y yn gallu defnyddio eu dealltwriaeth o'r ddeddfwriaeth a'r canllawiau ynghylch addysg ddewisol yn y cartref fel mecanwaith i atal gweithwyr proffesiynol rhag cael mynediad at y plant.

Mae tystiolaeth yn dod i'r amlwg bod y ddau riant yn trin y systemau a phrosesau iechyd ac addysg i gydymffurfio'n arwynebol â gofynion cyfreithiol wrth gadw rheolaeth dynn dros unrhyw fynediad posibl at y plant, ac yn mynd ati i geisio eu cadw'n gudd rhag y gweithwyr proffesiynol a allai fod wedi gallu adnabod cam-drin y plant. Nid yw'r ymddygiad hwn yn anghyffredin mewn teuluoedd sy'n ceisio twyllo gweithwyr proffesiynol yn fwriadol wrth ymddangos yn arwynebol eu bod yn cydweithredu. Mae tystiolaeth o ymddygiad tebyg wedi ymddangos mewn llawer o ymchwiliadau cyhoeddus ac adolygiadau diogelu proffil uchel, a chyfeirir at hyn yn aml fel 'cydymffurfio'n gudd'.

Mae[7] adran 7 o Ddeddf Addysg 1996 yn nodi dyletswydd rhieni i beri i'w plentyn gael addysg amser llawn sy'n addas i'w oed, gallu, dawn ac anghenion arbennig.



TERFYNOL

**Camau dysgu**

Yn 2012, ni roddwyd caniatâd i enwau'r plant gael eu rhoi i'r gwasanaeth nyrsio ysgol ac felly nid oeddent yn gallu gwneud unrhyw gysylltiad â'r teulu. Nid yw hyn yn ofyniad gorfodol a dewisodd y teulu beidio â chymryd rhan.

Ar 23 Ionawr 2013, nodir bod yr awdurdod lleol yn fodlon gyda darpariaeth academaidd y plant ond amlygwyd pryderon ynglŷn â diffyg cyfleoedd ar gyfer rhyngweithio cymdeithasol. Gwnaed cais am wybodaeth bellach ynglŷn â hyn ac ymatebodd y rhieni iddo. Fodd bynnag, nid oedd tystiolaeth o unrhyw bryder ar y lefel a fyddai wedi caniatáu atgyfeiriad i'r Gwasanaethau Plant.

Mae'n werth tynnu sylw at y ffaith bod Adolygiad Ymarfer Plant Cryno blaenorol[8] wedi'i gynnal yng Nghymru, yn dilyn marwolaeth drasig plentyn a gafodd addysg ddewisol yn y cartref ac, yn anffodus, a oedd yn parhau i fod yn 'anweledig' i'r awdurdodau. Roedd yr argymhellion yn cynnwys cais i Lywodraeth Cymru adolygu'r canllawiau ar addysg ddewisol yn y cartref i blant, i gynnwys y gofyniad y dylai plant gael eu gweld ac y dylid siarad â nhw, fel y gellir cydnabod eu dymuniadau a'u teimladau.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi proses ymgynghori yn ddiweddar mewn perthynas â'i chanllawiau diwygiedig drafft ar addysg yn y cartref (30 Ionawr 2020). Wrth ymateb i hyn, dywedodd Comisiynydd Plant Cymru:

"*Wrth alw am reoleiddio mwy statudol ar addysg ddewisol yn y cartref yng Nghymru, mae gen i dri nod. Yn gyntaf, y gellir cyfrif am holl blant Cymru ac na fydd yr un ohonynt yn llithro o dan radar gwasanaethau cyffredinol, a chymdeithas yn gyffredinol. Yn ail, bod pob plentyn yn derbyn addysg addas a'u hawliau dynol eraill, gan gynnwys gofal iechyd a diogelwch. Ni ellir cyflawni hyn heb y trydydd nod, sef y dylai pob plentyn gael y cyfle i gael ei weld ac i'w farn a'i brofiadau gael eu clywed".*

Nid yw'n syndod bod yr adroddiad mewn perthynas â'r ymatebion i'r canllawiau newydd, "*Ymgynghoriad ar Addysg yn y Cartref – Canllawiau Statudol i Awdurdodau Lleol a Llawlyfr i Addysgwyr yn y Cartref*", yn cynnwys cymysgedd cryf o gefnogwyr a'r rhai nad ydynt yn cefnogi'r newidiadau a argymhellir. Mae yna rai sy'n dadlau yn erbyn yr angen i ymgynghori â phlant a'u gweld fel rhan o'r broses. Maen nhw hefyd yn dadlau nad yw'n fwy tebygol y bydd plant sy'n cael addysg yn y cartref yn destun pryderon diogelu ac na ddylid eu hystyried felly. Mae'r dyfyniad canlynol o'r ymateb i'r ymgynghoriad yn dangos y safbwyntiau cryf y mae rhai rhieni yn eu rhannu:

*"Nid wyf yn ymwybodol bod yr awdurdod lleol yn cael cyfarwyddyd i siarad â phob plentyn ysgol i wneud yn siŵr eu bod yn hapus i fod yn y system ysgolion. Bydd ymweliadau gorfodol â phlant sy'n cael addysg yn y cartref yn achosi gofid ac yn ymwthiol, yn magu diffyg ymddiriedaeth, ac yn gwbl wahaniaethol i'r plant sy'n cael addysg yn y cartref." (Unigolyn)*

[8] CYSUR 2/2015

- Mae'n werth nodi barn Mrs Y a'r ddau blentyn ar addysg yn y cartref ar y pwynt hwn. Yn eu cyfraniad i'r adolygiad, mae'r plant yn credu y dylent fod wedi cael dewis ynghylch cael eu haddysg yn y cartref. Yng ngeiriau AY, "*Dylai pob plentyn fynychu'r ysgol. Os na, yna dylai swyddogion addysg ddod i'r tŷ. Rhaid cael amgylchedd byw a dysgu addas. Dylai'r plant ddewis a ydynt am gael addysg yn y cartref.*" Yn ei chyfweliad, dywedodd Mrs Y ei bod yn credu'r canlynol: "*Dylai fod canllawiau statudol sy'n nodi y dylai plant sy'n cael addysg yn y cartref orfod rhyngweithio â phlant eraill sy'n cael eu haddysg yn y cartref, efallai mewn llyfrgell neu rywle tebyg lle gallai gweithwyr cymdeithasol eu harsylwi.*" Dywedodd AY ymhellach, "*Mewn gwirionedd, doedden ni ddim yn bodoli*."

**Iechyd**

Symudodd y teulu i Ganolbarth a Gorllewin Cymru yn 2008, ac ers hynny ychydig iawn o gysylltiad a fu gyda'r bwrdd iechyd lleol a gwasanaethau lleol. Cyfyngodd Mr a Mrs Y eu cysylltiad â gweithwyr iechyd proffesiynol, ond mae cofnodion yn dangos bod ymwelwyr iechyd, staff ysbytai a gwasanaethau bydwreigiaeth wedi gweld Mr a Mrs Y a'r plant ar adegau gwahanol. Roedd y plant yn gyfoes â'u himiwneiddiadau a chynhaliwyd rhai gwiriadau iechyd yn unol â'r canllawiau gofynnol, er enghraifft *Rhaglen Plant Iach Cymru: Fframwaith Sicrhau Ansawdd – Gwasanaethau Cyffredin i Blant a Theuluoedd 2016.* Mae dogfennaeth yn dangos mai dim ond ymweliadau ar ei chais gan ymwelwyr iechyd a gafodd Mrs Y a'i bod wedi gwrthod asesiadau iechyd. Cyfeiriodd Mrs Y sgyrsiau gyda'r gweithwyr iechyd proffesiynol at y Beibl a chrefydd. Mae'r cofnodion yn adlewyrchu ymdrechion mynych i drefnu apwyntiadau. Bu sawl ymweliad yn y cartref ac arsylwyd ar y plant ond ni siaradwyd â hwy ar eu pen eu hunain.

Yn 2011, gwelwyd un o'r plant, a oedd yn 9 mis oed, yn y clinig ymwelwyr iechyd gyda chleisio ar ei wyneb. Yr esboniad gan Mrs Y oedd ei fod wedi disgyn i lawr rhai grisiau yn yr ardd. Gofynnodd Mrs Y iddo gael ei bwyso â'i ddillad amdano. Ar y pryd, roedd ymchwiliad adran 47 agored, a chyfarfodydd strategaeth parhaus, a chysylltodd yr ymwelydd iechyd â'r gweithiwr cymdeithasol a neilltuwyd i'r teulu a'i hysbysu am y clais. Fodd bynnag, mae cofnodion yn nodi nad oedd unrhyw Ffurflen Atgyfeirio Amlasiantaethol (MARF) ysgrifenedig ddilynol na llythyr wedi'i anfon ynghylch y clais, ond roedd yr wybodaeth hon ar gael i'r cyfarfod strategaeth amlasiantaeth. Nid yw'n glir o'r cofnodion pa gamau a gymerwyd mewn perthynas â hyn, os o gwbl.

Cwblhawyd Offeryn Cymorth ac Ymyrraeth Leeds[9] (LSIT) ar 29 Awst 2015 gan yr ymwelydd iechyd, a oedd yn parhau i bryderu am ynysigrwydd y teulu. Roedd hwn yn declyn mewnol a oedd yn cael ei ddefnyddio'n rheolaidd gan staff iechyd ar y pryd i helpu i nodi teuluoedd a oedd angen cymorth a gwasanaethau eilaidd yn ogystal â gwasanaethau iechyd cyffredinol a byddai'n cael ei ddefnyddio'n aml i nodi 'plant mewn angen'. Mae'r LSIT yn

TERFYNOL

[9]Canllawiau Offeryn Cymorth ac Ymyrraeth Leeds PTHB/SGP027 i Weithwyr Iechyd Proffesiynol

broses asesu i hysbysu ac arwain arfer. Mae'n bwysig nodi nad offeryn diagnostig yw hwn ac nad yw'n diystyru barn broffesiynol. Fodd bynnag, nid oes tystiolaeth i awgrymu y trafodwyd canlyniad yr asesiad hwn a'r angen am gymorth ychwanegol gyda'r rhieni. O ystyried, pe nad oedd yr ymwelydd iechyd yn gallu gwneud hyn oherwydd diffyg ymgysylltiad â'r teulu, ac o ystyried ynysigrwydd y plant, dylid bod wedi cynnal trafodaeth gyda'r Gwasanaethau Plant. Daw'r canlynol o ganllawiau'r offeryn:

***Ymyrraeth Eilaidd Lefel 2 LSIT***

***Diffiniad:*** *Gwaith a gwasanaethau ar gyfer plant, pobl ifanc a theuluoedd y nodwyd eu bod 'mewn perygl' neu o dan straen/pwysau sy'n ceisio lleihau'r risg o blant yn cael eu cam-drin. Gall y rhain gynnwys ymyriadau 'plentyn mewn angen', gwaith gwirfoddol, a strategaethau hunanamddiffyn penodol ar gyfer plant. Gall hyn hefyd gynnwys atgyfeirio at y Gwasanaethau Plant fel plentyn mewn angen. (Cyfeiriwch at Weithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan, Diogelu Plant: Gweithio Gyda'n Gilydd o dan Ddeddf Plant 2004 a'r Fframwaith ar gyfer asesu Plant mewn Angen a'u Teuluoedd, Adran Iechyd 2000)*

Mae cofnodion yn dangos bod patrwm o ymgysylltu â'r gwasanaeth bydwreigiaeth yn y cyfnod ôl-enedigol uniongyrchol, ond ymgysylltiad cyfyngedig â'r gwasanaeth ymwelwyr iechyd. Er enghraifft, cyflwynodd un o'r plant fel babi ifanc â phryder clinigol (clefyd melyn) a gwrthododd y rhieni fynd â'r babi i gael ei sgrinio. Nid oes dim wedi'i gofnodi i awgrymu y ceisiwyd cyngor meddygol pellach i sicrhau bod y babi'n cael ei reoli'n briodol yn y gymuned.[10]

Dengys cofnodion iechyd ymhellach fod nifer o'r plant wedi cael eu cyflwyno i adrannau damweiniau ac achosion brys ar wahanol adegau dros nifer o flynyddoedd. Er y nodwyd ar y pryd y gallai fod yn anodd ymgysylltu â Mr a Mrs Y, nid oedd digon o dystiolaeth i rybuddio unrhyw un y gallai'r rhieni fod yn esgeuluso neu'n cam-drin eu plant.

**Beichiogrwydd cudd**

Mae Canllawiau Ysbyty Amwythig a Telfod (SaTH) ar Feichiogrwydd Cudd (2013)[11] yn diffinio apwyntiad mamolaeth hwyr fel menyw sy'n dod i'r gwasanaethau ar ôl 24 wythnos o feichiogrwydd. Beichiogrwydd cudd yw pan fydd menyw yn gwybod ei bod yn feichiog ond nid yw hi neu'r rhai sy'n cael gwybod yn dweud wrth unrhyw un ac mae'r ffaith yn cael ei gelu oddi wrth bob gweithiwr gofal ac iechyd proffesiynol.

Mae'r datgelu hwyr gan Mrs Y o'i hwythfed beichiogrwydd yn cyd-fynd â'r diffiniad o feichiogrwydd cudd. Efallai fod hyn eto yn arwydd o osgoi ymyrraeth broffesiynol yn eu bywydau, fel yr awgrymir gan yr wybodaeth a ddarparwyd fel rhan o'r adolygiad hwn, ac mae Mr a Mrs Y bob amser wedi ceisio gwneud hynny. Cyflwynodd Mrs Y fel apwyntiad mamolaeth hwyr (34+ wythnos yn feichiog) ar gyfer ei phumed plentyn (seithfed beichiogrwydd) a chuddiodd ei chweched plentyn (wythfed beichiogrwydd).

[10] Rhestr Cyfeirio Cyflym Bwrdd Iechyd Addysgu Powys ar reoli clefyd melyn hirymarhous

[11] Canllawiau SaTH ar Feichiogrwydd Cudd (2013)

Ar 1 Awst 2014, cysylltodd Mrs Y â'r goruchwylydd bydwragedd mewn ysbyty ardal cyffredinol cyfagos i roi gwybod iddi am ei beichiogrwydd, ni fyddai'n cael unrhyw ofal cyn geni, ac mai dim ond pan oedd yn esgor yr oedd am gael mynediad at ofal mamolaeth. Roedd Mrs Y wedi derbyn gofal bydwreigiaeth gan dîm bydwreigiaeth Powys o'r blaen ac y byddai'n gwybod y dylai gael mynediad at ei gofal bydwreigiaeth drwy ei meddyg teulu neu'r tîm bydwreigiaeth lleol. Mae hyn yn awgrymu mai ymgais bellach oedd hon i guddio'r beichiogrwydd rhag y timau bydwreigiaeth ac ymwelwyr iechyd lleol.

Eglurwyd y risgiau o beidio â mynychu am sgan cyn geni yn llawn i Mrs Y. Dywedodd nad oedd ganddi unrhyw gludiant a'i bod yn hyderus "*y byddai Duw yn gofalu amdani hi a'i babi*". Eglurodd na fyddai'n cael mynediad at unrhyw ofal cyn geni ac mai dim ond yn ystod y cyfnod esgor y byddai am gael mynediad at ofal mamolaeth.

Mae llythyr gan Mrs Y dyddiedig yr un diwrnod yn manylu ar ei chynllun geni, ac yn amlinellu ei dymuniadau a sut yr hoffai i'r enedigaeth gael ei rheoli. Yr hyn sy'n arwyddocaol yw ei bod wedi nodi na fydd ganddi bartner geni a'i bod yn dymuno i'r ysbyty drefnu cludiant adref iddi hi a'r babi yn dilyn yr enedigaeth.

Nodir hefyd fod Mrs Y wedi gwrthod dau gyswllt ymwelydd iechyd yn ystod y cyfnod hwn.

**Tai**

Mae'r teulu wedi byw mewn gwahanol gyfeiriadau. Rhwng 2010 a 2017, roedd pum newid llety hysbys, weithiau oherwydd ôl-ddyledion rhent. Mae adroddiadau gan swyddogion tai am amodau cartref gwael ac, ar un achlysur, cofnodwyd mater yn ymwneud â matresi budr yn y cartref. Nid oedd hyn yn destun archwiliad pellach gan unrhyw asiantaethau i gael gwybod a oedd y baeddu oherwydd y plant neu Mr Y, y gwyddys ei fod yn yfed gormod o alcohol. Gwnaeth y Gwasanaethau Tai atgyfeiriad i'r Gwasanaethau Plant yn 2011, oherwydd adroddwyd am batrymau ymddygiad anghydweithredol gan y rhieni, y ffaith bod llawer o blant yn y cartref i gyd yn cael addysg ddewisol yn y cartref, materion yn ymwneud â dyled, tlodi teuluol, y teulu'n symud o gwmpas llawer, a Mr a Mrs Y yn ceisio ynysigrwydd cymdeithasol.Arweiniodd yr atgyfeiriad hwn at gychwyn ymchwiliad amddiffyn plant, ond ni symudodd ymlaen i asesiad craidd wedi'i gwblhau, nac i gynnig gwasanaethau cymorth i'r teulu. Nid oes unrhyw gofnod i awgrymu bod y swyddogion tai wedi derbyn canlyniad yr atgyfeiriad a wnaed ganddynt yn ddiweddarach i roi gwybod iddynt fod yr achos wedi'i gau heb i asesiad llawn o anghenion y plant gael ei gynnal.

**Gwasanaethau Plant**

Mae digwyddiadau sydd y tu allan i linell amser yr adolygiad hwn yn berthnasol i ddysgu arwyddocaol.

Rhwng mis Mai 2011 a mis Hydref 2011, daeth y Gwasanaethau Plant i gysylltiad â'r teulu yn dilyn atgyfeiriad gan y Gwasanaethau Tai. Roedd y cyfnod hwn o amser yn gyfle a gollwyd i'r asiantaethau sy'n ymwneud â'r teulu gael golwg gyfannol ar y pryderon cyfunol,

TERFYNOL

i ystyried ymhellach ddiogelwch a llesiant y plant, ac i gymryd camau a fyddai wedi galluogi'r plant i gael eu gweld ac i bobl siarad â nhw fel y gellid archwilio a deall eu profiadau bywyd o ddydd i ddydd. Oherwydd cofnodion anghyflawn a pheth gwybodaeth allweddol ar goll yn y ffeil, bu'n anodd mewn rhannau i fod yn gwbl sicr o union drefn y digwyddiadau, y penderfyniadau a wnaed, a'r camau a gymerwyd. Dylai gweithrediad trylwyr o Weithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan, a oedd yn bodoli ar y pryd, fod wedi bod yn ddigon i sicrhau bod y plant yn rhan ganolog o'r ymchwiliadau ac asesiadau gofynnol. Nid oedd cau'r achos pan nad oedd ymchwiliadau o'r fath wedi'u cynnal yn briodol yn cyd-fynd â'r safonau gofynnol ar y pryd ac mae'n arfer proffesiynol gwael.

Mae cofnodion yn dangos y cynhaliwyd cyfarfod strategaeth amlasiantaeth am y tro cyntaf ar 19 Mai 2011. Mae'r cofnodion yn nodi'r rheswm dros yr atgyfeiriad priodol a wnaed gan y Gwasanaethau Tai ynghylch ynysigrwydd cymdeithasol y plant a natur reolaethol y ddau riant. Dywedodd y gweithiwr cymorth tai na chyfarfu hi ag unrhyw un o'r plant tan ei thrydydd ymweliad â chartref y teulu. Ar yr achlysur hwn, cyfarfu'r gweithiwr â CY a dywedodd ei bod wedi troi at ei mam i gael caniatâd i siarad. Dywedodd y gweithiwr wrth y cyfarfod strategaeth ei bod y tro hwn wedi sylwi ar gleisio 'melyn' ar ochr pen a breichiau'r plentyn.

Cynhaliwyd cyfarfod strategaeth arall ar 27 Mehefin, lle penderfynwyd cynnal ymholiad adran 47 un asiantaeth gan y Gwasanaethau Plant. Nodwyd nad oedd y plant ar y gofrestr addysg yn y cartref. Roedd y teulu wedi cael cynnig eiddo pedair ystafell wely ond wedi ei wrthod oherwydd nad oedd ar ei ben ei hun.

Daeth canlyniad yr ymchwiliad i'r casgliad bod y plant mewn perygl difrifol o ynysigrwydd cymdeithasol ac y byddai cyngor cyfreithiol yn cael ei geisio. Mae'r cofnodion yn nodi bod y rhieni'n ymarfer crefydd efengylaidd a bod y plant yn profi lefel uchel o reolaeth gan eu rhieni yn unol â'u credoau crefyddol. Fodd bynnag, mae cofnodion yn nodi nad oedd yr ymchwiliadau ar y pryd yn awgrymu unrhyw bryderon o ran anafiadau nad oeddent yn ddamweiniol neu gam-drin corfforol bwriadol.

Mae cofnodion y cyfarfod hwn yn nodi mai'r prif bryder oedd ynysigrwydd cymdeithasol y plant a'r effaith y byddai hyn yn ei chael dros amser ar eu llesiant emosiynol. Ymhellach, bu trafodaeth ynglŷn â'r anfantais gymdeithasol/addysgol bosibl yr oedd y plant yn ei phrofi o gael addysg yn y cartref. Mae'r cyngor cyfreithiol a gofnodwyd yn y cofnodion yn awgrymu'r farn bod gan unigolion yr hawl i fyw eu bywydau fel y mynnant a dim ond pan fydd y ffordd honno o fyw yn rhoi plentyn neu blant mewn perygl o niwed sylweddol y daw rôl yr awdurdod lleol i rym, a bod byw mewn ynysigrwydd yn ddewis y gall unigolyn ei wneud heb ymyrraeth ddiangen gan y wladwriaeth. Yr unig lwybr yr ystyriwyd ei bod yn werth ei archwilio oedd yr agwedd addysg, gan y nodwyd nad oedd y rhieni wedi cydymffurfio â cheisiadau'r adran am wybodaeth ynglŷn â darpariaeth addysgol y plant.

Argymhellwyd bod cynrychiolydd cyfreithiol y cyfarfod strategaeth yn trafod y mater ymhellach gyda chyfreithiwr y Gwasanaethau Addysg.

Cynhaliwyd cyfarfod adolygu strategaeth ar 7 Medi 2011. Mae'r cofnodion yn nodi na fyddai Mr a Mrs Y yn cymryd rhan yn yr asesiad craidd. Dywedodd y cadeirydd nad oedd

TERFYNOL

unrhyw sail gyfreithiol dros gymryd unrhyw gamau pellach o safbwynt amddiffyn plant, ond byddai cyfarfod cynllunio cyfreithiol yn cael ei gynnull i archwilio'r posibilrwydd o gael gorchymyn asesu teuluol. Roedd y cofnodion yn adlewyrchu pryderon parhaus yr asiantaethau am y plant a'u hynysigrwydd. Fodd bynnag, nid oes cofnod o unrhyw drafodaeth bellach ynghylch cais am orchymyn asesu teuluol neu i alw cyfarfod cynllunio cyfreithiol. Wrth edrych yn ôl i fyfyrio, byddai hyn wedi rhoi cyfle i weithwyr proffesiynol ystyried sut y gallent weld y plant i asesu eu hanghenion. Mae'n ymddangos bod y cyngor cyfreithiol wedi dylanwadu'n gryf ar ganlyniad y trafodaethau amlasiantaeth, a oedd yn canolbwyntio'n llwyr ar y gofynion addysgol yn hytrach na diogelwch a llesiant y plant. Mae'n bwysig nodi mai prif gyfrifoldeb yr asiantaethau statudol yw pennu lefel y pryder a'r risg i'r plant, a gweithredu yn unol â hynny i'w diogelu, ac nid yw'n briodol ildio i'r rhai sydd ond yn cynnig cyngor cyfreithiol.

Cynhaliwyd cyfarfod strategaeth adolygu arall ar 5 Hydref 2011. Trafodwyd addysg y plant yn y cartref yn y cyfarfod, ac mae cofnodion yn nodi bod y rhieni wedi cael eu cyfweld yn y swyddfa ac y barnwyd eu bod yn cydymffurfio â gofynion addysg ddewisol yn y cartref. Mae'r cofnodion yn nodi bod yr ymwelydd iechyd wedi gweld cleisiau ar wyneb DY, a oedd yn naw mis oed, ond nid oes tystiolaeth yn y cofnodion bod unrhyw ddadansoddiad o risgiau cam-drin corfforol wedi'i wneud o ganlyniad i'r ffaith bod yr ymwelydd iechyd wedi codi'r pryderon hyn.

Mae'r cofnod achos ar 16 Medi 2011 ar gyfer DY yn nodi bod yr ymwelydd iechyd wedi ffonio'r gweithiwr cymdeithasol a'i hysbysu bod cleisio wedi'i arsylwi ar foch a thalcen DY. Mae'r cofnod yn nodi bod yr ymwelydd iechyd wedi derbyn yr esboniad gan y fam fod DY wedi cwympo ar risiau. Nodwyd hefyd bod y fam wedi gwrthod dadwisgo'r plentyn i'w bwyso. Nid oes cofnod o drafodaeth strategaeth ynghylch yr wybodaeth hon nac o unrhyw gysylltiad pellach gan y Gwasanaethau Plant.

Caewyd yr achos wedyn ym mis Ionawr 2012. Prin yw'r wybodaeth am yr achos i nodi beth, os o gwbl, a ddigwyddodd yn y cyfamser o fis Medi 2011 hyd at gau'r achos. Nid oes crynodeb achos i ddangos bod y pryderon gwreiddiol wedi cael sylw llawn.

**Cam-drin domestig**

Ers i'r plant gael eu tynnu o'i gofal, mae Mrs Y wedi disgrifio ei hun fel dioddefwr cam-drin domestig, gan nodi bod ymddygiad Mr Y tuag ati hi a'r plant yn orfodaethol, yn gamdriniol ac yn rheolaethol. Os byddwn yn ystyried canllawiau statudol y Swyddfa Gartref[12] ar ymddygiad gorfodaethol a rheolaethol mewn perthynas agos neu deuluol, gallwn weld bod y mathau o ymddygiad a ddangoswyd gan Mr Y yn bodloni'r diffiniad a nodir yn y canllawiau.Mae'n cynnwys y canlynol:

- ynysu unigolyn oddi wrth ei deulu a'i ffrindiau
- ei amddifadu o'i anghenion sylfaenol
- monitro ei amser

[12] Ymddygiad gorfodaethol a rheolaethol mewn perthynas agos neu deuluol – Fframwaith Canllawiau Statudol y Swyddfa Gartref, Rhagfyr 2016

- gorfodi rheolau a gweithgareddau sy'n bychanu, diraddio neu ddad-ddyneiddio'r dioddefwr
- bygythiadau i frifo neu ladd
- bygythiadau i blentyn
- gorfodi'r dioddefwr i gymryd rhan mewn gweithgarwch troseddol fel dwyn o siopau, ac esgeuluso neu gam-drin plant er mwyn annog hunan-fai ac atal datgeliad i'r awdurdodau
- cymryd rheolaeth dros agweddau o'u bywyd bob dydd, megis ble y gallant fynd, pwy y gallant ei weld, beth maent yn ei wisgo, a phryd y gallant gysgu
- gorfodi rheolau a gweithgareddau sy'n bychanu, diraddio neu ddad-ddyneiddio'r dioddefwyr

Mae Mrs Y yn cydnabod mai dyma sut roedd hi a'r plant yn byw a'i bod â rhan yn y ffordd hon o fyw. Mae'n honni mai'r rheswm am hyn oedd ei bod yn cael ei rheoli gan Mr Y. Roedd y plant yn dioddef yn fawr iawn o ymddygiad cam-drin gorfodaethol a rheolaethol fel y disgrifir uchod. Mae'n anodd gwahaniaethu rhwng y graddau yr oedd Mrs Y yn ddioddefwr a'r graddau ei bod hefyd yn gyflawnwr. Mae mewnbwn gan AY yn disgrifio Mrs Y fel un oedd yr un mor feius am gynnal ffordd o fyw gamdriniol y plant, ac mae'n honni bod Mrs Y yn gyfranogwr parod yn hytrach nag yn ddioddefwr dan orfodaeth. Mae'n disgrifio ei hun fel rhywun sy'n gorfod ymgymryd â thasgau oedolyn yn ymwneud â'r dyletswyddau yn y cartref a chafodd ei gorfodi i ddwyn o siopau er mwyn darparu eitemau hanfodol i'r teulu.

Disgrifiodd y ddau blentyn a gyfrannodd at yr adolygiad hyd a lled y rheolau llym yr oedd yn rhaid iddynt eu dilyn, a oedd, o'u torri, yn arwain at gosbau llym. Roeddent yn byw mewn ofn o Mr Y ac yn cael eu rhybuddio'n rheolaidd rhag siarad ag unrhyw un y tu allan i'r teulu. Byddai gweithredoedd o'r fath yn arwain at gosbau, gan olygu nad oedd gan y plant unrhyw ffordd o ddweud wrth neb beth oedd yn digwydd iddynt. Roedd eu hamlygiad cyfyngedig i'r byd y tu allan hefyd yn golygu nad oeddent yn gallu deall yr hyn a ystyriwyd yn fywyd teuluol a oedd yn normal. Mewn gwirionedd, cawsant eu magu i ofni'r byd y tu allan. Cydnabu Mrs Y fod y drefn lem wedi'i chyflwyno i'r plant o oed ifanc. Mewn cyfweliad, dywedodd AY ei fod yn gwybod "*i beidio â siarad ag unrhyw un*" a "*Pe baem yn siarad ag eraill y tu allan i'r tŷ*, *byddem yn cael ein curo*."

Yn eu cyfweliadau, siaradodd y plant a Mrs Y am rolau y merched o fewn y grefydd yr oeddent yn ei dilyn. Roedd benywod a merched yn eiddo i'r gwrywod a'r gwŷr a'r tadau a oedd yn eu "perchnogi" nhw. Nid oedd y merched yn cael dynwared dynion ac ni allent, er enghraifft, wisgo trowsus, na chael torri eu gwallt. Roedd disgwyl iddynt ufuddhau i Mr Y fel y ffigwr gwrywaidd trechol. Mae'n anodd gwybod yn bendant a oedd Mrs Y neu'r plant yn nodi eu hunain fel dioddefwyr ac, felly, a oeddent yn gallu ceisio cymorth a chefnogaeth. Hyd yn oed gyda staff oedd wedi'u hyfforddi'n dda a ddaeth ar draws Mrs Y, mae'n bosibl y byddai wedi bod yn anodd nodi hyn.

O fewn rhanbarth Canolbarth a Gorllewin Cymru, rhoddwyd sylw sylweddol i effaith cam-drin domestig ac mae enghreifftiau cadarnhaol o hyfforddiant a chodi ymwybyddiaeth ar

TERFYNOL

gyfer ymarferwyr. Mae Deddf Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015 wedi bod yn ffactor pwysig wrth helpu i ddylanwadu ar bolisïau ac arferion lleol.

**Camdriniaeth grefyddol/ysbrydol**

Mae'n bwysig bod yr adolygiad hwn yn ystyried cyd-destun y credoau crefyddol eithafol a ddilynwyd gan Mr a Mrs Y, a sut y defnyddiwyd hynny i godi ofn a chreu dannod difrifol i'r plant. Mae dewis dilyn ffydd mewn modd caeth ac ymroddedig yn rhywbeth y mae llawer o deuluoedd yn ei wneud. Nid yw hyn fel arfer yn dod yn rhywbeth y gellid ei ystyried yn 'gamdriniaeth'. Fodd bynnag, yn y sefyllfa hon, gellid dadlau bod Mr a Mrs Y wedi defnyddio *eu* dehongliad o'u dewis o grefydd/ffydd i fynd y tu hwnt i ddysgeidiaeth y ffydd honno i arfer rheolaeth a dylanwad llwyr dros eu plant. Roedden nhw'n defnyddio rheolau roedden nhw'n eu disgrifio i'r plant fel rhai hanfodol i'w crefydd i orfodi a rheoli pob agwedd ar fywydau'r plant. Roedd hyn yn cynnwys cam-drin emosiynol a chorfforol difrifol.

Nid yw cam-drin ysbrydol neu grefyddol yn derm y cyfeirir ato'n gyffredin ac nid yw'n bodoli mewn unrhyw weithdrefnau amddiffyn plant fel categori cam-drin annibynnol. Fodd bynnag, mae wedi ymddangos mewn adroddiadau proffil uchel o gam-drin lle mae plant wedi marw. Roedd yn nodwedd yn yr adolygiad achos difrifol o Victoria Climbie, yr oedd ei gofalwyr yn credu ei bod hi wedi'i meddiannu gan "gythraul".

Cafodd ficer yn Swydd Rydychen, y Parchedig Timothy Davis, yn euog gan dribiwnlys eglwysig o 'gamdriniaeth ysbrydol'. Fe'i cafwyd yn euog gan y llys crefyddol o gam-drin ei "bŵer ysbrydol a'i awdurdod" dros blentyn yn ei arddegau. Er nad oedd hon yn euogfarn droseddol, mae'n caniatáu ystyried effaith cam-drin plant yn ysbrydol.

Mewn llyfr a gyhoeddwyd yn 2018,[13] dadleuodd Lisa Oakley yn wreiddiol y dylid ystyried cam-drin ysbrydol yn gategori ar wahân, yn wahanol i fathau eraill o gam-drin, megis cam-drin seicolegol ac emosiynol. Ers hynny, mae hi'n credu nad oes angen categori ar wahân gan fod cam-drin ysbrydol yn cael ei nodweddu gan batrwm systemig o ymddygiad gorfodaethol a rheolaethol ac felly mae'n rhannu pethau cyffredin â cham-drin seicolegol ac emosiynol. Mae hi'n dadlau y "*gall y cam-drin hwn gynnwys: manipiwleiddio a chamfanteisio, atebolrwydd wedi'i orfodi, sensoriaeth wrth wneud penderfyniadau, gofynion cyfrinachedd a distawrwydd, gorfodaeth i gadarnhau, rheolaeth trwy ddefnyddio testunau neu ddysgeidiaethau sanctaidd, gofyniad ufuddhau'r camdriniwr, yr awgrym bod gan y camdriniwr safbwynt 'dwyfol', ynysigrwydd fel modd o gosbi*, *a goruchafiaeth ac elitiaeth*". Mae'n werth nodi bod yr elfennau hyn yn bresennol yn yr achos hwn ac felly yn werth eu hystyried yn y cyd-destun hwn.  Rhoddodd y digwyddiad dysgu gyfle i fyfyrio ar hyn fel ffactor posibl y gallai fod angen i ymarferwyr ei ystyried os bydd unrhyw senarios tebyg yn codi yn y dyfodol.

Mae angen i ymarferwyr fod yn effro i'r effaith ar blant o fyw gyda rhieni sy'n arddel credoau eithafol fel y gallant ystyried pa effaith niweidiol bosibl, os o gwbl, y gallai hyn ei chael ar y plant. Rydyn ni'n fwy cyfarwydd nawr â safbwyntiau eithafol sy'n gysylltiedig â

[13] *Escaping the maze of spiritual abuse: creating healthy Christian cultures* gan Dr Lisa Oakley a Justin Humphreys

therfysgaeth a radicaleiddio, ond o bosibl yn llai felly o ran crefyddau eraill a allai arwain at niweidio plant. Roedd gweithwyr proffesiynol yn yr achos hwn yn teimlo'n anghyfforddus ynghylch y ffordd yr oedd Mr a Mrs Y yn rhannu eu safbwyntiau eithafol a sut y ceisiasant eu gorfodi arnynt, ond nid oeddent yn teimlo y gallent wneud unrhyw farn gan mai dyna sut yr oeddent yn dewis byw fel teulu. Y cwestiwn i'w ofyn oedd a oedd yn ffordd 'dderbyniol' neu 'resymol' o fagu plant neu a oedd yn arwain at niwed posibl i'r plant. Nid oes tystiolaeth bod gan unrhyw un yr 'hawl' na'r cyfle i ryngweithio â'r plant i archwilio'r cwestiwn hwnnw gyda nhw.

Mae'r Ganolfan Adnoddau Genedlaethol Ar-lein, mewn erthygl ar drais yn erbyn menywod a rôl crefydd[14] gan y Parch. Dr Marie M. Fortune, yn archwilio effeithiau cadarnhaol a niweidiol posibl dysgeidiaeth grefyddol ar drais yn erbyn menywod ac yn nodi:

*"Mae'r dasg ar gyfer arweinyddiaeth grefyddol a seciwlar yn ddeublyg: 1) i gydnabod y gall credoau, testunau a dysgeidiaeth grefyddol wasanaethu fel rhwystrau ac fel adnoddau i ddioddefwyr cam-drin a 2) i ddyfnhau ein harchwiliad o destunau a dysgeidiaethau crefyddol ac archwilio dehongliadau fel ein bod yn lleihau'r rhwystrau ac yn gwneud y mwyaf o'r adnoddau i fenywod. Ni ddylai unrhyw fenyw byth gael ei gorfodi i ddewis rhwng diogelwch a'i chymuned neu draddodiad crefyddol. Dylai fod yn gallu cael mynediad at adnoddau eiriolaeth a lloches yn y gymuned a chymorth a chwnsler sy'n seiliedig ar ffydd. Er mwyn iddi wneud hynny, mae angen y ddau adnodd hyn arni i weithio ar y cyd fel y gallant ddarparu eiriolaeth a chymorth cyson i ddioddefwyr a goroeswyr a chymryd rhan yn y broses o ddwyn cyflawnwyr yn atebol.* Gellid dadlau bod hyn hefyd yn berthnasol i blant ac y dylid eu galluogi nhw i ymarfer ffydd ddewisol heb unrhyw gamdriniaeth.

TERFYNOL

[14] Violence against women and the role of religion gan y Parchedig Dr Marie M Fortune

Mae'r gwaith o nodi'r ymarfer a'r dysgu sefydliadol wedi'i dynnu o'r elfennau allweddol canlynol yn yr adolygiad:

- Cynhyrchu llinell amser amlasiantaeth a dadansoddiad asiantaeth cyfunol
- Digwyddiad dysgu
- Cyfarfod gyda Mrs Y (y fam)
- Cyfarfod gyda dau o'r plant (BY ac AY)
- Trafodaethau o fewn cyfarfodydd y panel adolygu
- Adolygu cofnodion yr achos
- Dadansoddiad yr adolygydd annibynnol a chadeirydd y panel

Mae pwyntiau dysgu wedi'u nodi drwy gydol y broses adolygu. Mae'n bwysig nodi bod y pwyntiau hyn yn cael eu nodi gyda'r fantais o allu edrych yn ôl ar ddigwyddiadau. Dylai unrhyw ddysgu gyfrannu at wella ymarfer yn y dyfodol a sicrhau bod gwasanaethau yn gadarn o ran amddiffyn plant. Mae'r adran isod yn nodi'r themâu sy'n codi o'r adolygiad a'r dysgu y gellir ei gael ohonynt.

**Tai**

| **Arferion da a nodwyd** |
| --- |
| • Dros nifer o flynyddoedd, cynigiodd swyddogion tai gefnogaeth dda i'r teulu a cheisio sicrhau nad oedd y plant yn cael eu gadael yn ddigartref.<br>• Roedd y swyddogion tai yn ddigon pryderus am y plant oedd yn byw gyda Mr a Mrs Y i wneud atgyfeiriad i'r Gwasanaethau Plant yn 2011. Amlinellon nhw sawl mater a oedd yn peri pryder, gan gynnwys ynysigrwydd cymdeithasol y teulu, symud tŷ dro ar ôl tro, problemau gydag ôl-ddyledion rhent, defnydd Mr Y o alcohol, a chredoau crefyddol eithafol y teulu. |

| **Safbwynt teuluol** |
| --- |
| • Cyfarwyddwyd y plant i beidio ag ymddiried mewn 'dieithriaid' y tu allan i'r teulu agos a byddent wedi bod yn annhebygol o rannu gyda swyddogion tai hyd a lled eu profiadau o gamdriniaeth. |

| **Dysgu** |
| --- |
| • Swyddogion tai i barhau i weithredu yn unol â'r gweithdrefnau diogelu ac i adrodd am bryderon lle credant y gallai plant fod mewn perygl o niwed sylweddol. Os nad ydynt yn credu yr ymdrinnir â'u pryderon yn ddigonol, yna rhaid iddynt uwchgyfeirio eu pryderon yn unol â'r polisi uwchgyfeirio y cytunwyd arno fel y'i nodwyd yn *Protocol Amlasiantaeth ar gyfer Datrys Gwahaniaethau Proffesiynol* Bwrdd Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru. |

### Y bwrdd iechyd lleol

Fel gwasanaeth cyffredinol, mae hanes cofnodedig o fynediad rheolaidd at Mrs Y a'r plant yn ystod cyfnod yr adolygiad hwn a thrwy gydol bywydau'r plant. Oherwydd bod yn feichiog ar sawl achlysur, roedd bydwragedd ac ymwelwyr iechyd yn gweld Mrs Y yn ei chartref ac mewn lleoliadau iechyd dros nifer o flynyddoedd. Mae cofnod o fynd i'r Adran Mân Anafiadau, Damweiniau ac Achosion Brys saith o weithiau oherwydd anafiadau a damweiniau i nifer o'r plant. Ar yr holl achlysuron hyn, teimlwyd bod yr anafiadau yn gyson â'r esboniad a roddwyd.

Gwelwyd y plant yn rheolaidd ar gyfer imiwneiddiadau ac ar gyfer rhai asesiadau datblygiad ac iechyd. Fodd bynnag, mae'r cofnodion hefyd yn nodi nifer o ymweliadau mynediad a gafodd eu gwrthod, asesiadau a gafodd eu gwrthod, ac apwyntiadau a fethwyd. Nid oes dim i ddangos yn unrhyw un o'r cofnodion iechyd bod unrhyw un o'r plant yn cael eu gweld neu fod rhywun yn siarad â nhw am eu profiadau bywyd o ddydd i ddydd, na bod gan unrhyw asiantaethau bryderon am ddiogelwch neu lesiant y plant. Mae rhyngweithiad staff iechyd yn canolbwyntio ar yr oedolion yn bennaf. Yr unig weithwyr iechyd proffesiynol oedd yn ymweld â'r cartref oedd ymwelwyr iechyd a bydwragedd. Cylch gorchwyl yr ymwelydd iechyd yw'r plentyn cyn-ysgol; nid yw rôl yr ymwelydd iechyd yn cynnwys plant hŷn sy'n cael addysg yn y cartref. Nid yw o fewn cwmpas ymarfer ymwelwyr iechyd i siarad â'r plant hŷn am eu profiad bywyd beunyddiol. Cysylltodd nyrsys yr ysgol â'r teulu, gan gynnig gwasanaeth iddynt, ond ni fanteisiwyd ar hwn.

Mae tystiolaeth o rywfaint o ryngweithio da rhwng asiantaethau yn dilyn pryderon ynghylch beichiogrwydd risg uchel, ond nid yw pryderon ynghylch celu beichiogrwydd yn cael eu harchwilio cystal.

Cydnabuwyd beichiogrwydd cudd babi rhif 6 a gwrthodiad y fam i gael unrhyw ymyriad cynenedigol cyn yr enedigaeth fel risg glinigol i'r fam ac i'r babi heb ei eni, a chafodd y pryder hwn ei uwchgyfeirio yn yr ysbyty cyffredinol dosbarth. Nid oes tystiolaeth ddogfennol bod pryderon diogelu wedi'u hystyried, er bod pump o blant ifanc eraill yn y teulu a phryderon parhaus am ddiffyg mynediad a'u hynysigrwydd. Nid oes tystiolaeth o unrhyw gyswllt rhwng yr ysbyty cyffredinol a thîm diogelu'r bwrdd iechyd. Ni hysbyswyd tîm diogelu'r bwrdd iechyd gan ymarferwyr am y beichiogrwydd cudd. Nid oedd y teulu wedi cael eu gweld ers mis Hydref 2013 (deg mis cyn yr enedigaeth) ac ni fynychwyd yr un apwyntiad gyda'r ymwelydd iechyd a gwrthodwyd apwyntiad arall. Roedd yr ymwelydd iechyd wedi trafod y diffyg mynediad at y plant ar yr adeg hon gyda'r Nyrs Arbenigol ar gyfer Diogelu Plant ac wedi ystyried ymweliad dirybudd. Wrth fyfyrio, gall hyn ddangos bwriad y teulu i guddio'r beichiogrwydd hwn.

Mae'r gronoleg yn dangos patrwm cyson o ymgysylltu a diffyg ymgysylltu gan rieni'r plant â'r gwasanaeth bydwreigiaeth ac ymwelwyr iechyd. Nid oes tystiolaeth bod llythyr ffurfiol wedi ei anfon at y rhieni yn gofyn iddynt a oeddent yn dymuno derbyn y gwasanaeth ymwelwyr iechyd. Byddai hyn wedi cynnwys rhywfaint o oruchwyliaeth gan reolwr llinell yr ymwelydd iechyd. Oherwydd hyn, parhaodd y rhieni i ymgysylltu â'r gwasanaeth

ymwelwyr iechyd ar '*eu telerau nhw*' a thu allan i'r cysylltiadau a argymhellir gyda'r ymwelydd iechyd. Ychydig iawn o gydymffurfedd a fu gyda'r gwasanaeth ac nid oes tystiolaeth fod defnydd o'r polisi '*heb ddod*' wedi ei ystyried pan wrthodwyd mynediad at y plant. Defnyddiwyd Offeryn Cymorth ac Ymyrraeth Leeds fel rhan o oruchwyliaeth diogelu. Fodd bynnag, ni chafodd yr ymwelydd iechyd gyfle i drafod canfyddiadau'r offeryn gyda'r teulu, a oedd yn nodi bod angen cymorth ar y plant, oherwydd diffyg ymgysylltiad y rhieni. Dylai hyn fod wedi sbarduno trafodaeth gyda thîm diogelu'r bwrdd iechyd a'r Gwasanaethau Plant.

**Arferion da a nodwyd**

- Roedd gweithwyr iechyd yn wynebu anawsterau proffesiynol o ran parhau i fod ar gael ac yn gefnogol i'r teulu wrth gydnabod y cyfyngiadau a osododd y teulu i aros 'wedi'u hynysu' ac yn breifat yn unol â'u credoau crefyddol. Gwnaethant lwyddo i barhau i gynnig gwasanaethau er gwaethaf ymateb a oedd weithiau'n 'elyniaethus' gan Mrs Y i'w hymdrechion i'w chefnogi.
- Gwnaeth yr ymwelydd iechyd a adroddodd am y cleisiau ar DY, a'r ffaith y gwrthodwyd tynnu dillad y plentyn, ymddwyn yn briodol wrth rannu ei phryderon.

**Safbwynt teuluol**

- Yn y cyfarfod gyda'r adolygydd, mae Mrs Y yn awgrymu pe bai wedi gallu datblygu perthynas 'ymddiriedol' gyda'r gweithwyr iechyd dros gyfnod o amser pan gafodd ei gweld ganddynt, yna efallai y byddai wedi teimlo y gallai fod wedi datgelu'r berthynas gamdriniol roedd hi a'r plant ynddi gyda Mr Y.
- Roedd y plant o'r farn y dylai'r gweithwyr iechyd proffesiynol fod wedi cael gwybod am eu sefyllfa pan oeddent yn ymweld â'r cartref gan eu bod yn teimlo bod eu hymddygiad yn ffactorau rhybuddio – er enghraifft, dylai eu hamharodrwydd i siarad neu i ymgysylltu â phobl o'r tu allan oni bai y caniateir hynny'n benodol gan Mr neu Mrs Y, a thystiolaeth o'u hanafiadau, fod wedi rhybuddio'r asiantaethau i bryderu amdanynt.
- Roedd gwrthwynebiad wrth Mr a Mrs Y i ymgysylltu'n llawn â'r holl wasanaethau iechyd a gynigiwyd yn rhwystro gallu'r gweithwyr proffesiynol i ffurfio perthynas ymddiriedus â nhw.

**Dysgu**

- Mae angen goruchwyliaeth a chymorth rheolaidd ar ymarferwyr y mae eu rôl yn dod â nhw i gysylltiad â rhieni heriol ac anfoddog. Dylai hyn gynnwys ystyried pob polisi / dull gweithredu sydd ar gael i gynorthwyo ymarferwyr.
- Mae'r gronoleg yn dangos patrwm cyson o 'gydymffurfio cudd' posibl gan y rhieni ac yn dynodi '*gadael i bethau lithro*' posibl wrth reoli'r achos.

- Yr angen i ystyried pryderon diogelu ochr yn ochr â materion clinigol cynyddol neu gronnus. Mae ystyried yr hanes yn bwysig wrth wynebu pryderon cyfredol.
- Mae angen rhoi ystyriaeth bellach i'r canllawiau presennol mewn perthynas â beichiogrwydd cudd ac apwyntiadau hwyr pan fo plant ifanc eraill yn y teulu.
- Yr angen i rannu neu weithredu ar chwilfrydedd proffesiynol, pan allai fod pryder ynghylch effaith ymddygiadau a dewisiadau rhieni ar blant.
- Mae angen cydnabod bod gan blant yr hawl i farn ar effaith cael addysg ddewisol yn y cartref. Mae angen i hyn fod yn rhan o'r canllawiau ar gyfer pob asiantaeth a allai ddod i gysylltiad â phlant mewn amgylchiadau o'r fath.

**Cydymffurfedd cudd**

**Arferion da a nodwyd**

- Atgyfeiriad beichiogrwydd risg uchel gan y gwasanaeth bydwreigiaeth ar gyfer gofal obstetrig gan feddyg ymgynghorol
- Tystiolaeth bod risgiau cynllun geni dewisol Mrs Y wedi'u hatgyfnerthu'n glir gan y gweithwyr proffesiynol oedd yn gyfrifol am ei gofal
- Cyfathrebu da rhwng yr ymwelydd iechyd a'r fydwraig
- Roedd yr ymwelydd iechyd yn ymwybodol o bryderon blaenorol ynghylch ynysigrwydd y plant a'r ymweliadau 'heb fynediad'
- Ymdrechion parhaus i gynnig y gwasanaeth ymwelwyr iechyd

**Safbwynt teuluol**

- Mae Mrs Y yn rhannu ei bod yn teimlo bod ei gŵr yn gallu dylanwadu ar y sefyllfa fel ei bod hi a'r plant yn gallu osgoi rhybuddio unrhyw weithwyr proffesiynol am y sefyllfa yr oeddent ynddi, gan ei fod yn gwybod 'sut i chwarae'r system'.

**Dysgu**

- Roedd patrwm parhaus o ymgysylltu â'r gwasanaeth bydwreigiaeth yn y cyfnod ôl-enedigol uniongyrchol ac ymgysylltiad cyfyngedig â'r gwasanaeth ymwelwyr iechyd. Mae'r cofnodion yn dangos mai dim ond ar delerau a bennir gan y rhieni y cafwyd unrhyw ymgysylltiad.
- Dylai hyfforddiant ar 'gydymffurfedd cudd' fod ar gael i ymarferwyr fel eu bod yn gallu canfod pan all rhieni fod yn defnyddio hwn i guddio ymddygiad camdriniol neu ddiffyg cydymffurfedd.
- Cyflwynwyd y baban â phryder clinigol (clefyd melyn) ac mae'n ymddangos bod yr ymwelydd iechyd a'r fydwraig wedi derbyn penderfyniad y rhieni i wrthod fynd â'r baban i'w gael ei sgrinio. Nid oes tystiolaeth y ceisiwyd cyngor meddygol pellach, a allai fod wedi'i gyfleu i'r rhieni ac a fyddai wedi cefnogi rheolaeth y baban yn y gymuned.

- Adroddwyd am bryder ynghylch dau glais ar wyneb plentyn i'r Gwasanaethau Plant, ond ni chafwyd unrhyw apwyntiad dilynol naill ai'n ysgrifenedig nac mewn galwad ffôn pellach i benderfynu ar y canlyniad. Pan wneir atgyfeiriadau, mae angen mynd ar drywydd y rhain yn unol â Gweithdrefnau Diogelu Cymru. Yn ogystal, dylai'r diffyg caniatâd gan Mrs Y i bwyso'r plentyn heb ddillad, o ystyried y cleisio ar yr wyneb, fod wedi codi cwestiynau i'w holi i Mrs Y ynghylch y rhesymau pam, a chodi pryder pellach i'w gynnwys yn yr atgyfeiriad. Arfer da fyddai gwneud atgyfeiriad newydd, ond nid oes tystiolaeth bod yr ymwelydd iechyd wedi cael ei chynghori i wneud hyn gan y gweithiwr cymdeithasol. Roedd hyn yn y trydydd cyfarfod strategaeth adolygu ar 05/10/2011, pan godwyd y digwyddiad gan yr ymwelydd iechyd – nid oes cofnod o unrhyw gamau gweithredu a gymerwyd gan y gweithiwr cymdeithasol mewn perthynas â hyn na barn y partneriaid amlasiantaeth a fynychodd y cyfarfod strategaeth ynghylch beth ddylai ddigwydd nesaf.

**Addysg ddewisol yn y cartref**

Derbyniodd y plant addysg yn y cartref a oedd yn cydymffurfio â gofynion Deddf Addysg 1996, a nodwyd yn y digwyddiad dysgu bod Mr a Mrs Y wedi mynd y tu hwnt i'r hyn a fyddai'n cael ei ystyried yn ymateb lleiafswm i geisiadau'r awdurdod lleol am ddiweddariad blynyddol. Gwelwyd eu bod yn gwbl gydweithredol ac yn gallu dangos eu bod yn deall gofynion y Ddeddf a'r chanllawiau ar sut i ddarparu cwricwlwm priodol ar gyfer eu holl blant o oedran ysgol a oedd yn cael addysg yn y cartref. Pan godwyd mater ynysigrwydd cymdeithasol gyda'r teulu, gofynnodd Mr Y ble yn y canllawiau yr oedd yn dweud bod yn rhaid i'r plant gymdeithasu, gan wybod nad oes canllawiau o'r fath yn bodoli.

O ystyried nad oes unrhyw ofyniad i'r plant gymdeithasu, cael eu gweld gartref na chael rhywun i siarad â nhw am eu haddysg, nid oes llawer y teimlai'r tîm addysg y gallent ei wneud neu y gallent fod wedi'i wneud a allai fod wedi eu rhybuddio am drafferthion y plant.

**Arferion da a nodwyd**

- Glynwyd at yr holl rwystrau a gwrthbwysau angenrheidiol yn unol â gofynion cyfreithiol y Ddeddf Addysg ac yn unol â'r canllawiau addysg ddewisol yn y cartref, a gwelir o'u derbyniad dilynol i ysgolion ar ôl cael eu cymryd i ofal bod y plant wedi derbyn addysg academaidd briodol.

**Safbwynt teuluol**

- Cred Mr a Mrs Y fod ganddynt yr hawl i addysgu eu plant gartref ac roeddent yn awyddus i sicrhau nad oedd eu plant yn cael eu haddysgu y tu allan i'r ffydd grefyddol a ddewiswyd ganddynt.
- Yn eu cyfraniad i'r adolygiad, mae'r plant yn credu y dylent fod wedi cael dewis ynghylch cael addysg yn y cartref – yng ngeiriau AY, "*Dylai pob plentyn fynychu'r*

TERFYNOL

*ysgol. Os na, yna dylai swyddogion addysg ddod i'r tŷ. Rhaid cael amgylchedd byw a dysgu addas. Dylai'r plant ddewis a ydynt am gael addysg yn y cartref."*

- Yn ei chyfweliad, dywedodd Mrs Y ei bod yn credu "*y dylai fod canllawiau statudol sy'n nodi y dylai plant sy'n cael addysg yn y cartref orfod rhyngweithio â phlant eraill sy'n cael addysg yn y cartref, efallai mewn llyfrgell neu rywle tebyg lle gallai gweithwyr cymdeithasol eu harsylwi*".

**Dysgu**

- Nid yw'r ddeddfwriaeth a'r canllawiau anstatudol presennol mewn perthynas ag addysg ddewisol yn y cartref yn gwneud unrhyw ddarpariaeth i blant gael eu gweld neu i rywun siarad â nhw am ddewis eu rhieni i'w haddysgu nhw yn y cartref. Nid ydynt ychwaith yn cynnwys unrhyw ganllawiau mewn perthynas â chymdeithasu ar gyfer plant sy'n cael addysg yn y cartref. Nid yw dymuniadau, teimladau neu farn plant sy'n cael addysg yn y cartref yn ffactor mewn unrhyw adolygiadau o'r trefniadau addysg ddewisol yn y cartref. Dim ond ar gyfer adolygu priodoldeb y cwricwlwm sy'n cael ei addysgu y mae'r canllawiau yn ei ganiatáu. Os yw rhieni'n dewis ynysu eu hunain a'u plant a defnyddio addysg yn y cartref i hyrwyddo'r ffordd hon o fyw, yna nid oes dim i'w hatal rhag gwneud hynny. Yn ogystal, os ydynt yn dymuno magu eu plant mewn ffydd grefyddol eithafol, nid yw hynny ychwaith yn cael sylw yn y canllawiau ar addysg ddewisol yn y cartref addas. Mae angen archwilio'r potensial i blant gael eu radicaleiddio mewn amgylchiadau o'r fath fel rhan o weithdrefnau addysg ddewisol yn y cartref a diogelu plant. Mae llawer mwy o ymwybyddiaeth mewn gweithdrefnau diogelu o radicaleiddio sy'n gysylltiedig â therfysgaeth bosibl, ond yn anaml y gwelir hyn yng nghyd-destun safbwyntiau crefyddol eithafol eraill.
- Mae achos cryf dros newidiadau i'r canllawiau ar addysg ddewisol yn y cartref i sicrhau, fel rhan o'r broses, y dylid ystyried barn, profiadau a dymuniadau plant, os ydynt o oedran ac â dealltwriaeth ddigonol i gyfrannu.

**Gofal cymdeithasol plant**

Ni chafodd y Gwasanaethau Plant eu cynnwys yn amserlen yr adolygiad hwn tan ar ôl y digwyddiad tyngedfennol, nad yw'n berthnasol i'r adolygiad hwn. Fodd bynnag, mae digwyddiadau a ddigwyddodd y tu allan i'r amserlen ar gyfer yr adolygiad hwn wedi'u hystyried, gan eu bod yn berthnasol. Fodd bynnag, dylid nodi bod llawer o'r digwyddiadau allweddol a nodwyd wedi digwydd sawl blwyddyn yn ôl a bod staff ac ymarfer o fewn yr awdurdod lleol wedi newid yn sylweddol yn y blynyddoedd ers hynny. Cydnabyddir y bydd gwersi uniongyrchol o ran arfer diogelu proffesiynol o fewn y cyd-destun presennol yn gyfyngedig.

O bwys yw'r atgyfeiriad a dderbyniwyd wrth y Gwasanaethau Tai ym mis Mai 2011. Arweiniodd hyn at gamau diogelu priodol yn cael eu cymryd yn unol â'r polisïau diogelu lleol. Cwblhawyd asesiad craidd, a ddaeth i'r casgliad canlynol, sef "*er bod gan y teulu*

*ddull amgen o fyw a chredoau crefyddol cryf*, *roedd gofal y plant yn ddigon da a'u bod yn ymddangos yn iach".* Cydnabyddir na fyddai'r rhieni yn cydsynio i'r plant gael eu gweld ac i rywun siarad â nhw ar eu pen eu hunain nac i eiriolwyr gael eu penodi ar eu rhan. Mae'n anffodus nad oedd hyn yn cael ei ystyried ar y pryd fel ffactor risg uwch ynghyd â nifer o ffactorau eraill a oedd yn peri pryder:

- Ynysigrwydd y teulu
- Nifer y gweithiau roedd y teulu wedi symud cyfeiriad
- Defnydd Mr Y o alcohol
- Safbwyntiau crefyddol eithafol Mr a Mrs Y
- Plant sy'n cael addysg yn y cartref
- Rhieni gwrthwynebol a allai fod yn cynnig cydymffurfedd cudd
- Diffyg cyswllt cymdeithasol i'r plant
- Hanes o fod mewn dyled gan y teulu
- Pryderon tai ynghylch y matresi budr yn y cartref fel yr adroddwyd gan y swyddogion tai
- Nid oedd neb ar gael i glywed llais y plant

Efallai nad yw unrhyw un neu unrhyw ddau o'r ffactorau hyn ynddo'u hunain wedi bod yn destun pryder, ond wrth roi'r holl ffactorau hyn at ei gilydd, daw darlun mwy pryderus i'r amlwg a allai fod wedi rhybuddio grŵp craidd o weithwyr proffesiynol at ystyried a oedd profiad bywyd o ddydd i ddydd y plant ar yr aelwyd yn "ddigon da". Gallai hyn, o leiaf, fod wedi galluogi archwiliad pellach o sut y gellid cyfathrebu â'r plant mewn ffordd a allai fod wedi datgelu beth oedd yr uchod i gyd yn ei olygu iddyn nhw.

**Arferion da a nodwyd**

- Dangoswyd rhywfaint o ddycnwch rhwng Mai 2011 a Rhagfyr 2011, pan deimlwyd bod posibilrwydd o gam-drin o fewn y teulu. Dilynwyd Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan 2008, a chynhaliwyd trafodaethau strategaeth, cyfarfodydd ac adolygiadau yn unol â'r gweithdrefnau hyn. Mae'r cofnodion yn nodi y cafwyd cyngor cyfreithiol priodol a ddaeth i'r casgliad na chyrhaeddwyd y trothwy ar gyfer niwed sylweddol.
- Mae tystiolaeth o oruchwyliaeth rhwng y gweithiwr cymdeithasol penodedig a'r rheolwr tîm.

**Safbwynt teuluol**

Nid yw aelodau'r teulu wedi gwneud sylw am y cyfnod hwn.

**Dysgu**

- Mae plant sy'n cael addysg yn y cartref ac sy'n cael eu hynysu'n gymdeithasol yn gallu bod yn agored i niwed os na all neb ganfod sut brofiad yw eu bywyd bob

| |
|---|
| dydd. Dylai cynnwys safbwyntiau a dymuniadau plant mewn amgylchiadau o'r fath fod yn rhan o'r canllawiau cenedlaethol ar gyfer addysg ddewisol yn y cartref a dylai fod yn rhan o weithdrefnau diogelu.<br>• Mae triongli pryderon a greddfau proffesiynol y gallai cam-drin fod yn bresennol gyda darlun manwl o'r teulu, gan ddefnyddio cronolegau a genogramau ochr yn ochr â mewnbwn gan y plant eu hunain (gan gynnwys eu gweld ar eu pen eu hunain), yn hanfodol bwysig er mwyn gallu asesu risgiau i blant. Mae angen i'r canllawiau ar gyfer cynnal asesiadau craidd fod yn benodol yn hyn o beth ac mae angen i hyfforddiant ar gyfer ymarferwyr atgyfnerthu'r defnydd o gronolegau a genogramau i lywio dadansoddiad o risgiau.<br>• Mae defnyddio eiriolaeth i ymgysylltu â phlant pan fo rhieni yn gwrthwynebu yn ffordd ddefnyddiol o sicrhau bod lleisiau plant yn cael eu clywed. Mae Gweithdrefnau Diogelu Cymru 2019 llawer yn fwy clir o ran cydnabod yr angen i ystyried profiad bywyd o ddydd i ddydd plant. |

**Cam-drin domestig – ymddygiad gorfodaethol a rheolaethol**

| **Arferion da a nodwyd** |
|---|
| • Mae cyfeiriad at fydwraig/ymwelydd iechyd yn ceisio archwilio'r mater o gam-drin domestig gyda Mrs Y yn unol â gweithdrefn leol: "*Hysbysiad Cam-drin Domestig 2008 – ymweliad â'r cartref gan ymwelydd iechyd – dywedodd Mrs Y ei bod yn gamddealltwriaeth – rhoddwyd cyngor iddi am sut i gysylltu â Chymorth i Ferched.*" Ym mis Ebrill 2011, dogfennir na chafodd yr ymwelydd iechyd gyfle i ofyn am gam-drin domestig. Ym mis Rhagfyr 2012, yn ystod ymholiad rheolaidd, gofynnwyd i Mrs Y am gam-drin domestig a rhoddodd ymateb negyddol. Roedd hwn pan oedd yn bresennol mewn clinig cyn-enedigol a fynychodd Mrs Y ar ei phen ei hun a byddai wedi bod yn gyfle delfrydol iddi leisio unrhyw bryderon.<br>• Mae'r canllawiau ynghylch trais yn erbyn menywod a merched, cam-drin domestig a thrais rhywiol wedi newid yn sylweddol dros amserlen yr adolygiad. Y canllawiau presennol yw y dylai bydwragedd, os yn bosibl, holi ym mhob cyswllt.<br>• Y canllawiau i ymwelwyr iechyd yw y dylid gofyn i bob merch yn rheolaidd cyn chwe wythnos o'i beichiogrwydd. Mae pob ymwelydd iechyd a bydwraig ym Mhowys wedi'u hyfforddi i gwblhau'r Asesiad Risg Bywydau Diogel os oes ymateb cadarnhaol i'r ymholiad rheolaidd.<br>• Ni fyddai ymwelwyr iechyd a bydwragedd yn gallu gofyn yr ymholiad rheolaidd os bydd y fenyw â chwmni neu os oes pryderon bod y partner yn y cartref. |

| **Safbwynt teuluol** |
|---|
| • Fel y disgrifiwyd yn gynharach yn yr adroddiad, mae Mrs Y wedi cyflwyno ei hun fel dioddefwr cam-drin domestig yn dilyn y cyfnod pan gafodd y plant eu tynnu |

| |
|---|
| o'u gofal. Mae'n credu pe bai'r asiantaethau wedi datblygu safbwynt llai beirniadol ohoni, efallai y byddai wedi datblygu perthynas o ymddiriedaeth a datgelu ei cham-drin iddynt. Mae'r plant wedi rhannu enghreifftiau o'u profiadau o fod yn ddioddefwyr cam-drin domestig, gan fod yn dyst i ymddygiadau o gam-drin rhwng eu rhieni ac yn destun camdriniaeth reolaethol a gorfodaethol. |

| **Dysgu** |
|---|
| • Nid oes tystiolaeth bod unrhyw un o'r gweithwyr proffesiynol a oedd yn ymwneud â'r teulu wedi llwyddo i archwilio'r posibilrwydd o gam-drin domestig yn y cartref. Cafodd unrhyw ymdrechion i wneud hynny gyda Mrs Y eu gwrthod yn gyflym. Nid yw hyn yn anarferol gan fod ymchwil yn dweud wrthym fod dioddefwyr cam-drin domestig yn ei chael yn anodd datgelu.<br>• Er bod deddfwriaeth fel Deddf Hawliau Dynol 1998 a Deddf Trosedd ac Anhrefn 1998 yn gosod rhwymedigaethau ar ymwelwyr iechyd i ymateb yn rhagweithiol i arwyddion o drais domestig, gallant wynebu anawsterau ymarferol wrth wneud hynny. Mae adolygiad llenyddiaeth[15] a gymerwyd o'r *Journal of Health Visiting* yn archwilio parodrwydd cleientiaid i ddatgelu eu bod yn ddioddefwyr cam-drin domestig i ymwelwyr iechyd a gweithwyr iechyd proffesiynol eraill.Mae'r canfyddiadau'n awgrymu y gall cleientiaid geisio atal arwyddion o gam-drin a byddant ond yn datgelu pan ofynnir iddynt yn uniongyrchol, gan bwysleisio'r angen am anogaeth a sicrwydd gweithredol i ganiatáu i gleientiaid deimlo'n ddiogel wrth siarad am brofiadau mwy cyffredinol. Maent hefyd yn amlygu ffactorau megis diffyg hyder, gwybodaeth neu hyfforddiant o ran atal cwestiynau am drais domestig rhag cael eu gofyn. Mae'r adolygiad yn nodi angen am ymchwil bellach i fesur sut yr eir i'r afael â cham-drin domestig mewn sefyllfaoedd penodol lle mae ymwelwyr iechyd yn bresennol. |

**Camdriniaeth grefyddol/ysbrydol**

| **Arferion da a nodwyd** |
|---|
| • Mae'n gadarnhaol bod ymarferwyr yn y digwyddiad dysgu wedi gallu archwilio gyda meddwl agored y posibilrwydd o bresenoldeb 'cam-drin ysbrydol' yn yr wybodaeth gyd-destunol sy'n ymwneud â'r teulu hwn. Mae hwn yn faes dadleuol ac nid yw'n un sy'n cael ei ddeall na'i drafod yn eang. |

| **Safbwynt teuluol** |
|---|
| • Disgrifiodd y ddau blentyn a gyfwelwyd eu profiad o farn grefyddol y teulu yn cael ei rheoli gan Mr Y. Roedd yn seiliedig ar reolau, ufudd-dod ac ofn. Fel y |

[15] Barriers to disclosure of domestic violence and abuse in health visiting, Helen Elliott. Cyhoeddwyd ar-lein: 20 Gorffennaf 2016 https://doi.org/10.12968/johv.2016.4.7.354

dywedodd BY, "*Y prif fater oedd safbwyntiau crefyddol cryf Dad a sut roedd yn eu defnyddio i reoli'r teulu. Roedd angen iddo sylweddoli bod ganddo hawl i'w gredoau, ond ni allai orfodi pobl eraill i'w credu nhw hefyd.*"

**Dysgu**

- Mae angen annog ymarferwyr trwy hyfforddiant ac arweiniad i archwilio gyda phlant eu profiad o fyw mewn cartref lle mae rhieni'n ymddwyn yn eithafol, yn seiliedig ar gredoau crefyddol/ysbrydol, i wirio a yw o bosibl yn disgyn i'r categori o fod yn gamdriniaeth.

*Er mwyn hyrwyddo'r hyn a ddysgwyd o'r achos hwn, nododd yr adolygiad y camau gweithredu canlynol ar gyfer y bwrdd a'r asiantaethau sy'n aelodau ohono a'r canlyniadau a ragwelir ar gyfer gwelliant:*

**Dysgu 1:**

Swyddogion tai i barhau i weithredu yn unol â'r gweithdrefnau diogelu ac i adrodd am bryderon lle credant y gallai plant fod mewn perygl o niwed sylweddol. Os nad ydynt yn credu yr ymdrinnir â'u pryderon yn ddigonol, yna rhaid iddynt uwchgyfeirio eu pryderon yn unol â'r polisi uwchgyfeirio y cytunwyd arno fel y'i nodwyd yn *Protocol Amlasiantaeth ar gyfer Datrys Gwahaniaethau Proffesiynol* Bwrdd Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru.

**Dysgu 2:**

Mae angen i sefydliadau iechyd lleol ystyried adolygiad o'r canllawiau presennol mewn perthynas â beichiogrwydd cudd ac apwyntiad hwyr, yn enwedig pan fo plant ifanc eraill yn y teulu.

**Dysgu 3:**

Mae angen i'r awdurdod lleol sy'n gyfrifol am y plant fodloni ei hun bod yr hyfforddiant y mae'n ei ddarparu ar hyn o bryd yn effeithiol ac y gall gynorthwyo rheolwyr i oruchwylio ymarferwyr y mae eu rôl yn dod â nhw i gysylltiad â rhieni heriol ac amharod. Dylai hyn gynnwys ystyried pob polisi / dull gweithredu sydd ar gael i gynorthwyo ymarferwyr yn yr amgylchiadau hyn.

**Dysgu 4:**

Mae angen i'r awdurdod lleol sy'n gyfrifol am y plant fod yn sicr bod yr hyfforddiant a'r codi ymwybyddiaeth sy'n cael eu hamlygu ar gyfer ymarferwyr sy'n gweithio gyda theuluoedd cymhleth yn effeithiol o ran helpu ymarferwyr i ddeall pwysigrwydd defnyddio cronolegau, cyd-destun teulu cyfan a hanes achosion i lywio asesiadau ac asesiadau risg.

**Dysgu 5:**

Y Bwrdd Diogelu Plant Rhanbarthol i ystyried ysgrifennu yn ffurfiol at Lywodraeth Cymru i dynnu sylw at y risgiau cynyddol posibl o ynysigrwydd cymdeithasol ar gyfer rhai plant sy'n cael addysg ddewisol yn y cartref, ac i ofyn bod canllawiau statudol sydd ar ddod yn cynnwys y gofyniad y dylai gweithwyr proffesiynol weld plant a siarad â nhw er mwyn sicrhau bod eu dymuniadau a'u teimladau yn cael eu casglu a'u deall.

**Dysgu 6:**

Bwrdd Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru i arwain adolygiad o'r rhaglenni hyfforddi sydd ar gael i asiantaethau partner a'u heffeithiolrwydd o ran hyrwyddo gwerth chwilfrydedd proffesiynol, deall 'cydymffurfedd cudd', a rhoi sylw i bwysigrwydd rhannu gwybodaeth er mwyn cadw plant yn ddiogel.

**Dysgu 7:**

Bwrdd Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru i adolygu ac ystyried yr angen am hyfforddiant ac arweiniad i ymarferwyr a rheolwyr ar effaith plant sy'n byw ar aelwyd lle mae'r rhieni'n dangos ymddygiad eithafol yn seiliedig ar gredoau crefyddol/ysbrydol ac i ddeall natur ei effaith ar y plant a'r teulu.

**Dysgu 8:**

Pob asiantaeth i'w cael eu hatgoffa wrth dderbyn cyngor cyfreithiol y dylid ystyried hyn a'i weld fel rhan o'r broses benderfynu gyffredinol, dan arweiniad yr asiantaethau statudol sy'n gyfrifol am ddiogelu plant. Nid rôl gwasanaethau cyfreithiol yw gwneud penderfyniadau diogelu.

DRAFT

## Proses yr Adolygiad Ymarfer Plant

Bu'r Is-grŵp Adolygiad Ymarfer Plant Rhanbarthol yn ystyried yr atgyfeiriad mewn perthynas â'r saith plentyn ar 29 Mawrth 2019. Roedd yr achos wedi cael ei ystyried gan yr is-grŵp rhanbarthol ar sawl achlysur yn flaenorol trwy gydol 2018. Roedd cymhlethdod yr achos yn golygu bod angen darparu gwybodaeth fanylach a dadansoddiad amlasiantaethol cyn y gallai'r grŵp gyrraedd barn ddiffiniol derfynol. Arweiniodd absenoldeb unrhyw ymwneud statudol, ar wahân i wasanaethau cyffredinol yn y blynyddoedd yn union cyn y digwyddiad tyngedfennol, at ystyriaeth sylweddol gan y grŵp ynghylch manteision cynnal adolygiad llawn a pha mor gyson fyddai hyn â'r fframwaith adolygu ymarfer plant statudol, sy'n argymell ystyried amserlenni heb fod yn hwy na 12 mis, neu ddwy flynedd mewn amgylchiadau eithriadol.

Penderfynodd cadeirydd y bwrdd fwrw ymlaen ag Adolygiad Ymarfer Plant Cryno ym mis Mai 2019.Roedd hyn oherwydd y lefel sylweddol iawn o niwed a brofodd y plant. Daeth i'r casgliad bod angen dadansoddiad, gwerthusiad ac asesiad strwythuredig a systematig o sut roedd y teulu'n gallu osgoi ymyrraeth gan asiantaethau, gan roi ystyriaeth benodol i'r pwerau presennol sydd ar gael i asiantaethau gyflawni eu cyfrifoldebau a'u rhwymedigaethau, a chynnwys y ffaith bod yn hysbys bod y plant yn cael addysg ddewisol yn y cartref.

Roedd y gwasanaethau a gynrychiolwyd ar y panel adolygu fel a ganlyn:

- Yr heddlu
- Gwasanaethau cymdeithasol plant yr awdurdod lleol
- Iechyd
- Bwrdd Diogelu Rhanbarthol
- Tai
- Gwasanaeth Prawf

Comisiynwyd cadeirydd panel ac adolygydd annibynnol a oedd, yn unol â'r canllawiau, yn annibynnol ar y broses o reoli'r achos ac yn meddu ar y profiad, galluoedd, gwybodaeth a sgiliau perthnasol a oedd yn ofynnol gan y teulu a'r amgylchiadau dan sylw.

**Digwyddiadau dysgu**

Cynhaliwyd digwyddiad dysgu ar 12 Mawrth 2020. Hwyluswyd hyn ar y cyd gan gadeirydd y panel a'r adolygydd annibynnol.

Mynychwyd y digwyddiad dysgu ar gyfer ymarferwyr a rheolwyr gan yr asiantaethau canlynol:

- Bydwragedd cymunedol
- Yr heddlu
- Gwasanaethau cymdeithasol plant yr awdurdod lleol
- Iechyd (meddyg teulu, bydwreigiaeth ac ymwelwyr iechyd)
- Bwrdd Diogelu Rhanbarthol

TERFYNOL

- Tai
- Gwasanaeth Prawf

Rhoddodd y digwyddiad dysgu gyfle i'r gweithwyr proffesiynol dan sylw ystyried eu rhan, eu hymarfer, eu hasesiadau a'u prosesau gwneud penderfyniadau. Mae’n anodd gwybod beth, os o gwbl, y gallai asiantaethau fod wedi’i wneud yn wahanol, yn enwedig yn ystod y deuddeg mis blaenorol. Roedd yn amlwg, wrth rannu’r holl wybodaeth a oedd yn hysbys gan weithwyr proffesiynol ar wahanol adegau, fod darlun mwy clir o amgylchiadau’r teulu wedi dod i’r amlwg. Fodd bynnag, yn ystod y deuddeg mis cyn y digwyddiad tyngedfennol, nid oedd tystiolaeth ddigonol o bryderon i gyfiawnhau unrhyw ymyriadau diogelu. Roedd sicrhau nad oedd ymarferwyr yn teimlo eu bod yn cael eu barnu na’u beio yn rhan hanfodol o’r digwyddiad dysgu. Dylid cydnabod bod pawb a oedd yn bresennol yn y digwyddiad yn llawn tosturi o achos cyflwr y plant ac yn awyddus i ystyried mewn modd agored a hunanfyfyriol unrhyw ddysgu posibl.

Defnyddiwyd y cwestiynau canlynol i hwyluso trafodaethau ac i nodi dysgu:

| |
|---|
| 1. Beth aeth yn dda a pha arfer da ydych chi wedi'i nodi? |
| 2. Beth ydych chi'n teimlo nad aeth yn dda ac a oes yna bethau sy'n achosi pryder i chi? |
| 3. Beth ydych chi'n teimlo y gallai asiantaethau fod wedi’i wneud yn wahanol? |
| 4. Yn eich barn chi, pa gamau y mae angen i asiantaethau eu cymryd wrth symud ymlaen, i sicrhau bod unrhyw ddysgu yn llywio ymarfer yn y dyfodol? |

Roedd gwerthusiadau ac adborth ar gyfer y digwyddiad dysgu yn gadarnhaol iawn.

Mae cadeirydd y panel a’r adolygydd annibynnol wedi cael cefnogaeth dda o ran cwblhau’r Adolygiad Ymarfer Plant hwn a hoffent ddiolch i dîm gweinyddol Bwrdd Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru a Thîm Cymorth Busnes Powys. Mae eu cyfraniadau wedi bod yn amhrisiadwy.

**Ymgysylltiad y teulu**

**Ymgysylltiad â’r tad (Mr Y)**

I ddechrau, cytunodd aelodau'r panel adolygu y byddai'n briodol ysgrifennu at Mr a Mrs Y i'w gwahodd i gymryd rhan yn yr adolygiad.

Ysgrifennodd yr adolygydd annibynnol a chadeirydd y panel wedyn at y tad a’r fam i egluro’r canlynol:

- Pam bod adolygiad yn cael ei wneud a sut y byddai'n cael ei gynnal
- Rôl yr adolygydd annibynnol a chadeirydd y panel
- Y digwyddiad dysgu
- Amserlenni’r adroddiad

I ddechrau, trefnwyd cyfarfod i gadeirydd y panel a'r adolygydd annibynnol gyfarfod â Mr Y. Fodd bynnag, yn dilyn cyngor gan weithiwr proffesiynol amlasiantaeth a oedd yn ymwneud â'r teulu, am ddirywiad iechyd meddwl Mr Y a'r bygythiadau a wnaed i'r rhai a oedd yn gysylltiedig â thynnu ei blant o'i ofal, teimlwyd ar y cyfan nad oedd yn briodol parhau â chyfarfod wyneb yn wyneb. Cysylltwyd â Mr Y i egluro y gallai gyflwyno ei farn yn ysgrifenedig i gael ei hystyried yn y digwyddiad dysgu. Pan na dderbyniwyd unrhyw ohebiaeth cyn y digwyddiad dysgu, anfonwyd ail lythyr at Mr Y yn ei wahodd i rannu unrhyw gyfraniadau ysgrifenedig â'r adolygiad.

**Ymgysylltiad â'r fam (Mrs Y)**

Cytunodd Mrs Y i gwrdd â'r adolygydd annibynnol, a chynhaliwyd ymweliad ym mis Mawrth 2020 mewn lleoliad niwtral ger cyfeiriad cartref Mrs Y. Daeth gweithiwr cymorth Mrs Y gyda hi (na wnaeth gyfrannu ond dim ond arsylwi). Roedd cofnodwr o'r panel yn bresennol gyda'r adolygydd annibynnol. Roedd hyn galluogi cadw cofnod cynhwysfawr o'r cyfarfod.


I baratoi ar gyfer yr ymweliad, anfonwyd llythyr at Mrs Y yn egluro pam fod adolygiad yn cael ei wneud, sut y byddai'n cael ei gynnal, rôl yr adolygydd annibynnol a chadeirydd y panel, y digwyddiad dysgu a'r adroddiad.

Roedd yr ymweliad yn ddefnyddiol iawn o ran gallu clywed barn Mrs Y am ei pherthynas â Mr Y a sut yr oeddent wedi magu'r plant. Roedd Mrs Y yn bendant iawn ei bod hi, yn ogystal â'r plant, wedi dioddef ymddygiad gorfodaethol a rheolaethol wrth Mr Y. Roedd hi eisiau rhannu bod ei dysgu o ddilyn rhaglenni magu plant ers hynny, ac o dderbyn cefnogaeth ei hun, wedi llywio ei meddwl presennol am sut y dylai plant gael eu magu. Soniodd am y rhaglen Blynyddoedd Rhyfeddol, y mae hi'n credu y dylai fod ar gael i bob rhiant. Dywedodd y byddai'n magu ei phlant yn wahanol nawr a dywedodd, "*Os yw plant yn cael eu magu mewn amgylchedd crefyddol caeth, nid ydynt yn cael cyfle i ddysgu sut i gymdeithasu, felly mae angen i blant sy'n cael addysg yn y cartref ddysgu sut i gymdeithasu â phlant eraill a chymryd rhan mewn gweithgareddau dysgu cymdeithasol*."

Rhannwyd safbwynt ac ymatebion Mrs Y yn y digwyddiad dysgu a, lle bo'n briodol, maent wedi'u cynnwys yn yr adran ar ddysgu ymarfer a sefydliadol.

<table>
<tr><th colspan="4">Datganiad gan yr Adolygydd/Adolygwyr</th></tr>
<tr><td>Adolygydd 1</td><td>Gladys Rhodes White</td><td>Adolygydd 2<br>(fel y bo'n briodol)</td><td></td></tr>
<tr><td colspan="2">Datganiad o annibyniaeth ar yr achos<br>Datganiad cymhwyster i sicrhau ansawdd</td><td colspan="2">Datganiad o annibyniaeth ar yr achos<br>Datganiad cymhwyster i sicrhau ansawdd</td></tr>
<tr><td colspan="2">Cyn i mi ymwneud â’r adolygiad dysgu hwn, gwnaf y datganiad canlynol:<br>• Nid wyf wedi ymwneud yn uniongyrchol â’r plentyn na’r teulu, nac wedi rhoi cyngor proffesiynol ar yr achos.<br>• Nid wyf wedi cael unrhyw gysylltiad fel rheolwr llinell uniongyrchol â’r ymarferydd (ymarferwyr) cysylltiedig.<br>• Mae gennyf y cymwysterau, gwybodaeth, profiad a hyfforddiant cydnabyddedig priodol i gynnal yr adolygiad.<br>• Cynhaliwyd yr adolygiad yn briodol ac roedd yn drylwyr wrth ddadansoddi a gwerthuso'r materion a nodir yn y cylch gorchwyl.</td><td colspan="2">Cyn i mi ymwneud â’r adolygiad dysgu hwn, gwnaf y datganiad canlynol:<br>• Nid wyf wedi ymwneud yn uniongyrchol â’r plentyn na’r teulu, nac wedi rhoi cyngor proffesiynol ar yr achos.<br>• Nid wyf wedi cael unrhyw gysylltiad fel rheolwr llinell uniongyrchol â’r ymarferydd (ymarferwyr) cysylltiedig.<br>• Mae gennyf y cymwysterau, gwybodaeth, profiad a hyfforddiant cydnabyddedig priodol i gynnal yr adolygiad.<br>• Cynhaliwyd yr adolygiad yn briodol ac roedd yn drylwyr wrth ddadansoddi a gwerthuso'r materion a nodir yn y cylch gorchwyl.</td></tr>
<tr><td colspan="2">Adolygydd 1<br><br>(Llofnod)</td><td colspan="2">Adolygydd 2<br>……………………………………………….<br>(Llofnod)</td></tr>
<tr><td colspan="2">Enw Gladys Rhodes White<br>(Enw mewn llythrennau bras)</td><td colspan="2">Enw ……………<br>(Enw mewn llythrennau bras)</td></tr>
<tr><td colspan="2">Dyddiad 14 Gorffennaf 2020</td><td colspan="2">Dyddiad<br>……………………………………….</td></tr>
</table>

TERFYNOL

| | | |
|---|---|---|
| **Cadeirydd y Panel**<br>*(Llofnod)* |  | **Adolygu** |
| **Enw**<br><br>*(Enw mewn llythrennau bras)* | Sian Howys | |
| **Dyddiad** | 14 Gorffennaf 2020 | |

**At ddefnydd Llywodraeth Cymru yn unig**

Dyddiad y daeth yr wybodaeth i law: *(dyddiad)*

Llythyr cydnabod wedi'i anfon at gadeirydd y bwrdd: ……………………………………(*dyddiad*)

Dosbarthwyd i'r arolygiaethau / arweinwyr polisi perthnasol: ……………………………………….(*dyddiad*)

| Asiantaethau | Do | Naddo | Rheswm |
|---|---|---|---|
| AGGCC | | | |
| Estyn | | | |
| AGIC | | | |
| Cwnstabliaeth Ei Fawrhydi | | | |
| Arolygiaeth Prawf Ei Fawrhydi | | | |
| | | | |

## Atodiad 1 Cylch Gorchwyl ar gyfer CYSUR 6/2018 (Adolygiad Ymarfer Plant Cryno)

<table>
<tr><td>

Cylch Gorchwyl ar gyfer Adolygiad Ymarfer Plant Cryno

CYSUR 6/2018 (Adolygiad Ymarfer Plant Cryno Powys)

- **Arweinydd Diogelu Enwebedig** –
- **Cadeirydd y Panel Adolygu** – Sian Howys
- **Adolygwr(wyr) Annibynnol** – Gladys Rhodes White, Rhodes White Consultancy

</td></tr>
<tr><td>

**Tasgau craidd:**

- Penderfynu a yw penderfyniadau a chamau gweithredu yn yr achos yn cydymffurfio â pholisi a gweithdrefnau'r gwasanaethau a enwir a'r bwrdd.
- Archwilio effeithiolrwydd gweithio rhyngasiantaethol a darpariaeth gwasanaeth ar gyfer y plentyn a'r teulu.
- Penderfynu i ba raddau yr oedd penderfyniadau a chamau gweithredu er lles gorau'r plentyn ac yn canolbwyntio ar ganlyniadau.
- Ceisio cyfraniadau i'r adolygiad gan aelodau priodol o'r teulu a rhoi gwybod iddynt am agweddau allweddol cynnydd.
- Ystyried unrhyw ymchwiliadau neu achosion cyfochrog sy'n ymwneud â'r achos.
- Cynnal digwyddiad dysgu amlasiantaeth ar gyfer ymarferwyr, a nodi'r adnoddau angenrheidiol.

</td></tr>
<tr><td>

**Tasgau penodol y panel adolygu:**

- Nodi a chomisiynu adolygydd i weithio gyda'r *panel adolygu* yn unol â chanllawiau ar gyfer adolygiadau cryno.
- Cytuno ar yr amserlen.
- Nodi asiantaethau, gwasanaethau perthnasol a gweithwyr proffesiynol i gyfrannu at yr adolygiad, cynhyrchu llinell amser a chrynodeb achos cychwynnol, a nodi unrhyw gamau gweithredu uniongyrchol a gymerwyd eisoes.
- Cwblhau'r wybodaeth ychwanegol am yr adolygydd annibynnol ac aelodaeth o'r panel.
- Cynhyrchu llinell amser unol, dadansoddiad cychwynnol a chanlyniadau dysgu.
- Cynllunio, gyda'r adolygydd, ddigwyddiad dysgu ar gyfer ymarferwyr, gan gynnwys nodi'r rhai i fod yn bresennol a threfniadau ar gyfer eu paratoi a'u cefnogi cyn ac ar ôl y digwyddiad, a threfniadau ar gyfer adborth.
- Cynllunio trefniadau cyswllt gyda'r adolygydd gyda'r unigolyn ac aelodau'r teulu cyn y digwyddiad.

</td></tr>
</table>

TERFYNOL

- Derbyn ac ystyried yr adroddiad Adolygiad Ymarfer Plant drafft i sicrhau bod y cylch gorchwyl wedi’i fodloni a bod unrhyw ddysgu ychwanegol yn cael ei nodi a’i gynnwys yn yr adroddiad terfynol.
- Cytuno ar gasgliadau'r adolygiad a chynllun gweithredu amlinellol, a gwneud trefniadau i'w cyflwyno i'r Is-grŵp Adolygiad Ymarfer Plant i'w hystyried ac i gytuno arnynt.
- Cynllunio trefniadau i roi adborth i aelodau'r teulu a rhannu cynnwys yr adroddiad ar ôl i'r adolygiad ddod i ben a chyn ei gyhoeddi.
- Bydd aelodau’r *panel adolygu* yn cadw at egwyddorion Deddf Diogelu Data 2018 wrth drin gwybodaeth bersonol fel rhan o broses yr Adolygiad Ymarfer Plant (gweler yr adran ar rannu gwybodaeth a chyfrinachedd).

**Tasgau penodol yr Is-grŵp Adolygiad Ymarfer Plant:**

- Cytuno a chymeradwyo cylch gorchwyl drafft ar gyfer pob achos a argymhellir ar gyfer Adolygiad Ymarfer Plant.
- Cytuno ar gasgliadau o'r adroddiad drafft a chynllun camau gweithredu amlinellol, a gwneud trefniadau i'w cyflwyno i'r bwrdd i'w hystyried a chytuno arnynt.
- Monitro cynlluniau gweithredu’r Adolygiad Ymarfer Plant i sicrhau bod yr holl argymhellion yn cael eu gweithredu ar ran y bwrdd.

**Tasgau penodol Bwrdd Diogelu Plant CYSUR:**

- Hysbysu Llywodraeth Cymru am ymgymryd â’r Adolygiad Ymarfer Plant.
- Cadw at amserlenni ar gyfer cwblhau, yn unol â'r canllawiau statudol.
- Derbyn a chymeradwyo’n ffurfiol adroddiad terfynol yr Adolygiad Ymarfer Plant a’r cynllun gweithredu.
- Ystyried a chytuno ar unrhyw bwyntiau dysgu’r bwrdd i'w hymgorffori yn yr adroddiad terfynol neu'r cynllun gweithredu.
- Anfon yr adroddiad at asiantaethau perthnasol am y sylwadau terfynol cyn ei gymeradwyo a'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru.
- Cadarnhau trefniadau ar gyfer rheoli'r cynllun gweithredu amlasiantaeth gan yr is-grŵp yr adolygiad, gan gynnwys sut y bydd gwelliannau gwasanaeth a ragwelir yn cael eu nodi, eu monitro a'u hadolygu.
- Cynllunio cyhoeddi ar wefan y bwrdd am o leiaf 12 wythnos ar ôl ei gwblhau.
- Cytuno i'w ddosbarthu i asiantaethau, gwasanaethau perthnasol a gweithwyr proffesiynol.
- Bydd cadeirydd y bwrdd yn gyfrifol am wneud yr holl sylwadau cyhoeddus ac ymatebion i ddiddordeb y cyfryngau ynghylch yr adolygiad hyd nes y bydd y broses wedi'i chwblhau.

**Rhannu gwybodaeth a chyfrinachedd**

TERFYNOL

Rhaid egluro perchnogaeth yr holl wybodaeth a'r ddogfennaeth er mwyn cael y caniatâd priodol gan y sefydliad perthnasol cyn rhannu. Dim ond gwybodaeth y maent yn berchen arni neu sy'n deillio ohonynt y gall sefydliadau ei rhannu.

Dylai'r cyfrifoldeb am ofyn am wybodaeth wrth bob sefydliad (gan gynnwys gan ddarparwyr annibynnol) gael ei egluro a'i gytuno gan y panel, fel y bo'n briodol.

Bydd datganiad cyfrinachedd (fel isod) yn cael ei lofnodi ym mhob cyfarfod o'r panel gan bawb sy'n bresennol i ailddatgan y ffiniau ar gyfer rhannu gwybodaeth:

- Wrth weithio gyda gwybodaeth sensitif mewn perthynas ag Adolygiad Ymarfer Plant, mae pob asiantaeth wedi cytuno ar ffiniau cyfrinachedd. Mae'r broses hon yn parchu'r ffiniau cyfrinachedd hynny, ac fe'i cedwir o dan ddealltwriaeth a rennir fel a ganlyn:
  - Cynhelir cyfarfodydd y panel o dan arweiniad *'Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl: Cyfrol 2 – Adolygiadau Ymarfer Plant*' o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant [Cymru] 2014.
  - Ystyrir bod datgelu gwybodaeth y tu allan i'r panel y tu hwnt i'r hyn a gytunwyd yn y cyfarfod yn achos o dorri cyfrinachedd y testun ac o dorri cyfrinachedd yr asiantaethau cysylltiedig.
  - Os teimlir bod caniatâd i ddatgelu yn hanfodol, dylid ceisio caniatâd cychwynnol gan gadeirydd y panel, a bydd penderfyniad yn cael ei wneud yn unol â'r egwyddor 'angen gwybod'.
  - Fodd bynnag, Bwrdd Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru sy'n bennaf gyfrifol am ddatgelu gwybodaeth i drydydd parti o'r panel amlasiantaeth a rhaid gwneud atgyfeiriad at reolwr busnes y bwrdd i gael awdurdod i ddatgelu.

TERFYNOL